YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MEDI, 1868.

RHESWM A CHREFYDD.

Os bydd y nodiadau canlynol yn gymeradwy, efallai y caniatewch iddynt gael ymddangos mewn rhyw rifyn dyfodol o'r YMOFYNYDD.

Dywedodd cyfaill wrthyf yn ddiwedddar fy mod i a'r blaid yr wyf yn perthyn iddi yn *gosod gormod o bwys ar reswm dynol;* ein bod yn gosod rheswm i fynu yn erbyn Ysgrythur, ac yn erbyn ffydd. Yn ystod yr ymddiddan a fu rhyngom ar y pwnc, rhywbeth yn debyg i'r hyn a ganlyn a ddywedais wrtho mewn ymddiffyniad o honof fy hun, ac mewn ymosodiad arno yntef. Yr ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol i bob dyn i arfer ei *reswm* er penderfynu pa un a ydyw yr Ysgrythyrau i gael eu derbyn fel y cyfryw, fod yn rhaid i ni arfer ein rheswm er mwyn gwybod pa beth maent yn ddysgu; ac, yn y trydydd lle, fod ffydd, yn lle bod yn wrthwynebol i reswm, yn cael ei sylfaenu *ar* reswm.

Yn y lle cyntaf, rheswm yw'r unig foddion mae Duw wedi roddi i ddynion er eu galluogi i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau, rhwng yr hyn sydd debygol a'r hyn sydd anhebygol, rhwng yr hyn sydd gredadwy a'r hyn sydd anghredadwy. Mae'r Testament Newydd wedi cael ei roddi i ni, ac yr ydym yn ei ddarllen. Nid oes genym ffordd i benderfynu pa un a'i gwirionedd neu anwiredd ydyw ond trwy arfer ein rheswm. Os oes rhaid i ni gredu y Testament Newydd yn unig oblegid ei fod yn cael ei osod o'n blaen, yna ar yr un tir y mae'r Mahometan dan gymaint gorfodaeth i gredu'r Koran. Dyn direswm, neu ddyn na arfero ei reswm, a gred mai gwirionedd bob gair a ddywed Barwn Munchausen yn ei deithiau.

Dywed un ei fod yn derbyn y Testament Newydd fel datguddiad oddiwrth Dduw. Mae arall yn gofyn iddo paham y mae yn gwneuthur hyn? Yna mae'r crediniwr yn myned ym mlaen ac yn rhoddi ei *resymau.* Mae yn dywedyd fod yr hanes yn ymddangos yn naturiol a bod arno nodau gwirionedd. Ei fod yn debyg i hanesion eraill ag y gwyr eu bod yn wirionedd. Gwaith rheswm yw cydmaru hanes y Testament Newydd âg hanesion eraill, a gwaith rheswm yw y casgliad y mae yn dynu oddiwrth

y cyfryw gydmariaeth. Dywed na fuasai Paul, a Phetr, ac Ioan, a'r Apostolion eraill, byth wedi ymdrechu cymaint ac yn y diwedd ddioddef merthyrdod dros yr hyn y gwyddent nad oedd iddo un sail ond anwiredd. Rheswm sydd yn gwneuthur y casgliad hwn. Ffydd yn y Testament Newydd gan hynny sydd a'i sail ar reswm. Pe fel arall, ni byddai amgen nag hygoeledd.

Yn yr ail le, mae yn rhaid i ni wrth ein rheswm er gwybod pa beth mae'r Bibl yn ddysgu i ni. Mae pawb dynion yn cyfaddef hyn, hyd yn od y rhai mwyaf poethlyd eu taerni yn erbyn rheswm. Mae pob plaid o Gristionogion yn arfer rheswm hyd nes y byddo yn myned yn eu *herbyn*, ac yna y maent yn ei ddiarddelwi. "Bydd di o fy mhlaid i, byddaf finau o dy blaid dithau. Os byddi di yn fy erbyn i, byddaf finau yn dy erbyn dithau." Mae'r Pabydd yn *ymresymu*, gan nad pa mor afresymol yr ymddengys ei ymresymiad i'r *Protestant*. Mae'n darllen yn y Testament Newydd yr adnod hono lle mae Crist yn galw ei hunan yn "winwydden." Ai yn llythyrenol neu yn ffigurol y mae iddo ddeall hyn? Os nad oes caniatad i'r Pabydd i arfer ei reswm, mae yn rhaid iddo gredu fod Iesu Grist mewn ystyr llythyrenol yn winwydden, ei fod wedi cael ei blanu yn y ddaear, fod iddo wreiddiau a changenau; a'r unig reswm a all roddi dros beidio deall y *passage* felly yw ei bod yn *afresymol* i gredu mai dyma oedd meddwl yr Iesu. Oherwydd fod rheswm yn cael ei osod ar waith y mae yn gwrthod ystyr lythyrenol y geiriau. Ond pan y mae'r Pabydd yn dyfod ar draws yr ymadrodd "Hwn yw fy nghorph," y mae yn gosod ei reswm o'r neilldu, ac yn haeru mai yn llythyrenol y mae deall y *passage* hwn, fod Iesu Grist yn golygu ei *gnawd* mewn gwirionedd. Mae'r Trindodwr Protestanaidd o hono yntau yn mynu arfer ei reswm uwch ben y geiriau uchod, yr un modd â'r Pabydd ym mhlegyd y winwydden. Mae ef o'r farn mai mwy *rhesymol* yw credu fod yr Iesu, wrth ddywedyd "Hwn yw fy nghorph," yn meddwl dim yn rhagor na fod y bara yn *arddangos* neu yn *cynrychioli* ei gorph, oblegid yr oedd ei gorph ar y pryd heb ei dori, ac heb fyned dan un cyfnewidiad.

Ond nid bob amser wrth ymdrin â'r Ysgrythyrau mae'r Trindodwr Protestanaidd yn arfer ei reswm mwy na'r Pabydd. Mae gan y naill fel y llall eu *manau neilldnol* lle mae rheswm yn cael ei alw at ei waith. Dywedodd Crist ar un achlysur, "Myfi a'r Tad un ydym." Myn y Trindodwr fod y geiriau hyn i gael eu cymeryd yn llythyrenol, fod Duw a Christ yn un bod. Yr ydys yn gofyn iddo pa fodd y gall *dau* fôd fod yn *un* bôd, ac y mae yn atteb yn uniongyrchol nas gall ddweyd pa fodd. Dirgelwch ydyw y rhaid ei gredu gan nad pa mor groes i reswm dynol y mae'n ymddangos. Ond nid ydyw'r brawd yn foddlon i'r Pabydd i daflu clogyn dirgelwch dros afresymoldeb athrawiaeth y traws-sylweddiad.

Mae'r Undodwr yn darllen y geiriau uchod yng ngoleuni rheswm yn gystal a'r ymadroddion "Hwn yw fy nghorph" a "Myfi yw'r wir winwydden." Mae yn ymofyn a ydyw Ioan ddim yn defnyddio y gair *un* mewn rhai manau lle nad oes undeb hanfod yn cael ei fwriadu. Ychydig benodau yn nes ym mlaen y mae'n cael yr Iachawdwr yn gweddio dros ei ddysgyblion yn y geiriau hyn,—"fel y byddont oll yn un." Yn yr adnod ganlynol mae Crist yn amlygu pa fath undeb oedd i fod

rhyngddynt, sef yr un undeb ag oedd rhyngddo ef â'r Tad,—"fel y byddont un, *megis yr ydym ni yn un*." Os yw y naill ymadrodd yn profi fod Duw a Christ yn un mewn rhif, mae'r llall, rhaid cyfaddef, yn profi fod Crist a'r dysgyblion yn un mewn rhif hefyd.

Yr unig wahaniaeth, gan hyny, rhwng yr Undodiaid a Christionogion eraill yw, fod yr Undodiaid yn arfer eu rheswm wrth esbonio'r *holl* Ysgrythyrau, a'r Trindodiaid yn unig wrth esbonio *rhai manau* o honynt. Canwyll eu rheswm gan yr Undodiaid *bob amser* yng nghyn, ac eiddo'r Trindodiaid *weithiau* felly. Heb arfer rheswm byddai datguddiad yn ddiwerth; oblegyd ni allem wybod beth sydd wedi cael ei ddatguddio na pheth sydd heb gael ei ddatguddio, beth sydd yn ffigwrol a pheth sydd yn llythyrenol. Os meddylir wrth osod rheswm uwchlaw yr Ysgrythyr, pan fyddo rheswm ac Ysgrythyr yn ymddangos fel yn croesi eu gilydd, ein bod fel Undodiaid yn credu rheswm o flaen Ysgrythyr, yr ydym yn ddifrifol yn gwadu'r cyhuddiad; oblegyd yr ydym yn dal nad yw yr Ysgrythyrau yn dysgu dim ond sydd yn berffaith resymol pan y maent yn cael eu deall yn iawn. Mae y naill yn cynorthwyo'r llall.

Mae datguddiad yn dysgu mwy, ac ar uwch tystiolaeth, na rheswm. Pe amgen, byddai datguddiad yn ddiddefnydd ac afreidiol. Pe heb ychwanegu dim at yr hyn yr oeddem yn wybod yn flaenorol, ni byddai o un daioni i ni. Mae rheswm yn dysgu y tebygolrwydd o fywyd dyfodol; ond y mae geiriau Crist yng nghyd â'i adgyfodiad ei hun yn gwneuthur y tebygolrwydd yn sicrwydd. Ond trwy gynorthwy rheswm yn unig y mae i ni gyrhaedd cyflawn argyhoeddiad i Grist erioed ddysgu y fath athrawiaeth, a chael ei gyfodi oddiwrth y meirw, yn flaenffrwyth, ac yn gyntafanedig ym mhlith brodyr lawer. Trwy help rheswm yn unig y mae i ni allu gwahaniaethu rhwng y gwyrthiau, y rhoddir hanes am danynt yn y Testament Newydd, â mil o bethau goruwchnaturiol eraill, mewn oesau diweddarach, y rhai sydd wedi cael eu trosglwyddo i lawr i ni gan ffrwd traddodiad. Yn unol â hyn, pob llyfr ag sydd erioed wedi cael ei ysgrifenu mewn ymddiffyniad i Gristionogaeth sydd yn cynnwys adroddiad o'r *rhesymau* sydd genym dros gredu hanesion gwyrthiol yr Hen Destament a'r Newydd, ac anghredu yr holl hanesion eraill. Mae llyfrau yr Ysgrythyrau yn cael eu cyflwyno i reswm dyn. Os nad yw'r rhesymiad yn foddhaol, nid oes gan ddatguddiad un awdurdod.

Ym mhellach, dywedaf mai rheswm yn unig yw sail ein hymddiried mewn datguddiad, hyd yn od pan yr ydym wedi cael ein hargyhoeddi fod un wedi cael ei roddi. Mae gwirionedd datguddiad, yn ymddibynu ar eirwiredd Duw, ar y *cwestiwn* pa un, a ydyw yn debygol y gwnae Ef dwyllo dynion ai ni wnae? Y tebygolrwydd na wnae Duw ein twyllo sydd yn sefyll yn hollol ar y ffaith mai Bod da yw. A'r unig brawf sydd genym mai Bod da ydyw, fod mwy o ddaioni nag o ddrwg i'w weled yn ei weithredoedd, fod dedwyddwch ei greaduriad yn gorbwyso y trueni y maent yn ddarostyngedig iddo. Camgyhuddiad mawr, gan hyny, yw fod yr Undodiaid yn gosod eu rheswm i fynu mewn gwrthwynebiad i'r Ysgrythyrau, ac mewn gwrthwynebiad i ffydd. Y maent yn gwneuthur defnydd o'u rheswm er cyfnerthu ffydd. Y maent yn arfer eu rheswm i esbonio yr Ysgrythyrau, ac i wybod pa bethau y maent yn ddysgu, a pha bethau nid ydynt yn ddysgu.

Meddai y rhyddfrydig a'r dysgedig Archesgob Tillotson, "Pan yr ydym yn dywedyd fod Duw wedi datguddio unrhyw beth, mae yn rhaid i ni fod yn barod i brofi hyny, neu ynte nid ydym yn dywedyd dim. Os ydym yn troi rheswm o'r neilldu yma, yr ydym yn darostwng y grefydd oreu yn y byd yn gydradd â'r penboethni gwylltaf a gwrthunaf. Ac nid ydyw yn gwneuthur fawr gwahaniaeth yn y mater i roi i reswm enwau drwg, ei alw yn *reswm dall a chnawdol.* O'n rhan ein hunain nid ydym yn teimlo un math o anghyfleusdra oddiwrth fod rheswm o'n tu; ac nid ydym yn ewyllysio un prawf o well fod unrhyw ddyn ar gam, na'i glywed yn ardystio yn erbyn rheswm, ac wrth hyny yn cyfaddef fod rheswm yn ei erbyn yntef. Mae rhai dynion yn tybied eu bod yn boddloni Duw yn fawr wrth gredu gwrthddywediadau pendant; ond y mae'r peth yn hollol i'r gwrthwyneb." Eto, "Nid yw Duw yn cynyg unrhyw beth i'w gredu gan ddyn ag sydd yn eglur wrthddywedyd syniadau naturiol ac hanffodol ei feddwl; oblegyd Duw yn dystrywio ei waith ei hunan fyddai hyny, a threthu dealltwriaeth dyn â'r hyn na all yn bosibl ei dderbyn, tra yn aros y peth yw."

Fel y canlyn hefyd y dywed Dean Swift:—"Mae'n eglur na wnaeth Duw erioed orchymyn i ni gredu, na'i weinidogion bregethu, unrhyw athrawiaeth groes i'r rheswm â pha un y mae wedi gweled bod yn dda i'n cynysgaeddu."

Mae'r erthygl hwn wedi chwyddo i fwy o faintioli nag yr oeddwn yn fwriadu pan y dechreuais ei ysgrifenu. Mr. Golygydd, byddwch wych.

B.

DOSPARTHIAD ANNGHYFARTAL GWOBRWYON A CHOSPAU YN Y SEFYLLFA BRESENOL YN BRAWF O FYD DYFODOL.

Yn wir pe na byddai ad-daliad tu draw i derfynau y bywyd presenol, bydd yn raid i ni addef un o'r ddau gasgliad canlynol,—naill, ai nid oes yr un Llywodraethwr Moesol ar y byd; neu, mai nid cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainge ef. Pan yr edrychom, ar un llaw, ar bleidiwr rhinweddol a chyfiawn crefydd yn ymryson mewn tlodi a thrueni, yn cael ymddwyn tuag ato gyda dirmyg, ei erlid yn achos ei uniondeb a'i grefydd, distrywio ei fwyniant daearol, a'i gollfarnu i farwolaeth warthus; ac ar y llaw arall, pan y gwelom yr halogedig a'r gorthrymus, dirmygwr Duw a'i grefydd, yn treulio ei ddyddiau mewn llawnder ac afradlonrwydd, ac yn gweithio ei ddybenion halogedig yn mlaen, gan ysbeilio y weddw a'r amddifad o'u cysuron penaf--pan y gwelwn ragrith yn llwyddo yn ei gynlluniau, a'r gonest a chywir yn cael ei esgeuluso a'i ddibrisio—dinystrwyr ein rhywogaeth yn cael eu llwytho â chyfoeth ac anrhydedd, tra y mae bendithwyr dynolryw yn nychu ymaith mewn dinodedd a dirmyg—cnafiaid ac ynfydion yn cael eu derchafu i swyddau o urddas ac anrhydedd, a dynion cywir a gwybodus yn cael ymddwyn atynt gyda sarhad, a'u cadw allan o bob sylw —troseddwyr o'r lliw gwaethaf yn diange yn ddigosp, a gweithredoedd rhinweddol, rhy brin yn cael eu cydnabod—pan y canfyddwn ddynion

ieuainge o rinwedd a deall yn cael eu tori i lawr yn more eu hoes, gydag y byddont yn dechreu bendithio y byd a'u llafur dyngarol; a gormeswyr a gorthrymwyr yn parhau yn bla ar gymdeithas, ac yn estyn eu hoes i henaint yn nghanol eu ffolineb a'u drygioni; dynion yn cael eu tori ymaith oddiwrth eu cyfeillion, a'u cartref naturiol, a'u troi i gaethiwed gwastadol, a'u darostwng yn îs na gradd yr anifeiliaid, tra y mae eu gorthrymwyr yn herio cyfreithiau Duw a dyn, ac yn ymdroi mewn llawnder a gwastraff, ac yn llwyddo yn eu troseddau—pan y gwelwn un genedl wedi ei goleuo â llewyrch gwybodaeth, a'r llall wedi ei suddo mewn dygn dywyllwch; un yn mwynhau bendithion gwareiddiad a rhyddid, a'r llall yn gruddfan dan fflangell gormes, ac wedi ei chyfliwyno i gaethiwed a rhwymau,—pan y myfyriom ar y fath ffeithiau trwy bob rhan o'r byd moesol, a allwn ni dybied am foment fod yr oruchwyliaeth Ddwyfol wedi ei chyfyngu i olygfa weledig pethau, ac na ddygir mo wir gymeriad dynion i oleuni, bod drygioni i aros yn dragwyddol guddiedig, ac nad yw y rhinweddau ardderchoccaf byth i dderbyn "cyfiawn daledigaeth y gobrwy?" Addef y fath ganlyniadau a'n harweiniai ar unwaith i wadu doethineb, daioni, ac uniondeb Rheolwr y byd, neu i dybied y gellid dyrysu ei fwriadau haelfrydus gan ffolineb a drygioni dynion. Ond y mae y fath gasgliad yn gyfeiliornad mor wrthun ac eglur, fel y gellir datgan fod y golygiad cyferbyniol, sef sicrwydd sefyllfa ddyfodol, yn wirionedd *profedig*. Wrth hyny, pe na buasai genym yr un rheswm i'w ddwyn yn mlaen i gadarnhau yr athrawiaeth o daledigaeth mewn byd i ddyfod, buasai hyny yn unig yn ddigonol i ddwyn argyhoeddiad i bob meddwl sydd yn cydnabod Bôd Deallgar Goruchel, ac y byddo ganddo olygiadau priodol ar y priodoliaethau sydd yn anhebgorol i'w harddangos yn ngweinyddiad ei lywodraeth foesol.

Pan unwaith yr addefir y casgliad hwn y mae pob dyryswch yn cael ei egluro, a phob anhawsder yn cael ei symud ag sydd yn codi yn naturiol yn y meddwl, pan y myfyriom ar sefyllfa annhrefnus bresenol y byd moesol, a'r ymddangosiad sydd ynddo o ddosparthiad annheg ar wobr a chosp. Gwedi cael iawn olwg ar y gwirionedd pwysig hwn, ni raid i ni ryfeddu dim am gyfraniad anghyfartal o roddion Duw yn mysg amrywiol genhedloedd a llwythau dynolryw; gan nad ydynt eto ond megis wedi eu gosod yn sefyllfa gyntaf eu bodolaeth, a bod y byd tragwyddol yn gyfiawn o fanteision i gwblhau pob peth ar gyfer y diffygion a'r anghyfartaledd sydd yn awr. Nid oes yr un achos i ni ymlenwi â thrallod pan y canfyddwn yr ieuange, duwiol a defnyddiol, yn cael ei dori i lawr yn nghanol ei ddyddiau, gan y bydd i'r blagur hwnw o rinwedd a ddechreuai ymagor gyda'r fath brydferthwch yn y bywyd hwn, gael ymëangu eto, a dwyn rhagorach ffrwythau cyfiawnder yn y bywyd annherfynol. Ni byddai raid i ni ryfeddu dim pan y gwelom orthrymwyr a dynion halogedig yn llwyddo, a rhai rhagorol y ddaear yn cael eu mathru dan draed, gan yr arddengys y byd olygfa o weinyddiad uniondeb, yn yr hwn y troir dagrau y cyfiawn yn llawenydd, a gorfoledd yr annuwiol yn ddyryswch a gwarth, ac y bydd pob un yn cael ei wobrwyo yn ol ei waith ei hun. Ni ddylem feichio ein meddwl â thybiau amheuol yn nghylch doethineb ac uniondeb goruchwyliaethau Rhagluniaeth, gan fod llywodraeth foesol Duw yn

estyn dros derfynau y byd hwn; ac y bydd i'w holl gymysgfa dywyll a dyrus gael eu dadlenu yn foddhäol yn ngoleuni y byd tragwyddol.

——————"*Y bythol gynllun mawr*
Gynhwysa bawb, gan uno 'n berfiaith oll,
Yn ol rhagolwg wrth ymledu 'n mlaen,
I lygad Pwyll ymddengys yna 'n glir.——
Pryd hyn y cenfydd pawb yr achos pa'm
Bu gwir Deilyngdod fyw yn nghudd dan len,
A marw 'n unig brudd. Pa fodd bu rhan
Y da mewn chwerwder enaid yma 'n byw,
A hithau 'r weddw, a'i rhai bach dan loes,
Yn druan ac yn noeth; ac Afraid yn
Y llysoedd gwych, mewn dyfais i barhau
Yn llunio angen heb ei fod; pa ham
Y bu Gwirionedd pur, sy 'n blentyn nef,
A Chymedroldeb deg, yn gwisgo nod
Dan fflangell lem Coel-grefydd; ïe, pa ham
Do 'i gofid dwys, y gelyn creulawn hwn,
I chwerwi 'n gwynfyd oll. Chwi enwog rai,
Er trallod dwys, a sai'n anhyblyg iawn
Dan bwys y byd, goddefwch enyd bach,
A'r hyn na ellwch weled ond o ran,
Fal drwg o bell, a dderfydd eto 'n llwyr;
Ystormydd geirwon tymhor Gauaf ânt
Yn gyflym heibio mwy, a Gwanwyn teg
Diderfyn a gylchyna oll."—"*Y Gauaf*," gan THOMSON.

DR. DICK.

PLANT YR YSGOL SABOTHOL.

BWRIADAF fyned a chwi y tro hwn etto i America. Mae'r wlad honno mor llawn o engreifftiau o ddynion a godasant i fynu i enwogrwydd a defnyddioldeb yn y byd trwy ei diwydrwydd a'u sobrwydd, fel mai anhawdd yw cael engreifftiau gwell yn un wlad i osod yn siamplau o flaen dynion ieuainge i'r dyben i greu ymdrech ynddynt i fod fel hwythau yn ddefnyddiol yn eu hoes a'u cenhedlaeth.

Oddeutu tri ugain mlynedd yn ol, blant, yr oedd yn nhref Groton, Massachusets, ystordy llwyddianus a gedwid gan un o'r enw James Brazier. Gwnelai Mr. Brazier fusnes fawr â'r holl wlad oddiamgylch, oblegid cynhwysai ei ystor bob peth braidd a allasai fod yn eisiau ar ddynion, nwyddau cottwn a gwlan, haiarn a choed, sidanau o bob math, edau, llestri pridd, barilau o ddobaco, rum a brandi, mewn gair, pob peth a allech feddwl am dano. Mor helaeth oedd ei fusnes fel yr oedd ganddo ddigon o waith i bump neu chwech o glercod.

Yn ei ystordy yr oedd yn arferiad i yfed am un-ar-ddeg o'r gloch yn y borau—arferiad lled gyffredin mewn llefydd o'r fath yr amser hwnnw yn America, ond yn awr sydd wedi cael ei rhoddi i fynu. Bob boreu cymmysgid math o wlybwr a wneid o rum, raisins, sugr, a nutmeg, gyda biscuits, a danfonid ef oddiamgylch i'r meistr, y clercod, a'r cwstwmwyr.

Yfai pob un o'r gwlybwr, gan ei archwaethu yn fawr, ac nid oes dim ammheuaeth na lyfent eu gwefusau ar ei ol, gan ddymuned cael rhagor. Un diwrnod, er mawr syndod i bawb yn y lle, gwrthododd un o'r clercod ei gyfran o'r gwlybwr, er mor flasus ydoedd. Gwnaeth benderfyniad na phrofai ddim o hono am wythnos. Yr oedd hyn yn beth hynod anghyffredin yn ngolwg eu gyfeillion. Dymunent wybod y rheswm. "Mae'r arferiad yn cynyddu arnaf," atebodd Amos, oblegid dyna oedd enw y gwr ieuange, "ac yr wyf yn ofni y fath arferiad, dyna y rheswm." Dywedai ei gyd-glercod wrtho am beidio bod yn ffol, a chwarddent am ei ben, fel y mae yn arfer gan ddynion ffol, difeddwl; ond ni chelai eu chwerthin na'u gwawd ddim effaith ar Amos. Gwnaeth ei benderfyniad cyntaf am wythnos, yna am flwyddyn, ac o'r diwedd tros amser ei brentisiaeth. Nid un yn gwneuthur penderfyniad oedd Amos, ac fel y gwna llawer, ei dori. Nid ychydig, fel y gwyddoch, blant, sydd yn gwneuthur penderfyniadau da, ond ni feddant rym i'w cadw, yn enwedig pan ddel profedigaeth. Nid yw penderfyniad o ddim gwerth oni chedwir ef, a glynir wrtho yn wyneb pob anhawsderau. Fel hyn, *yn unig* a throsto ei hunan, cymmerodd Amos dir *llwyr ymwrthodiad* pan oedd yfed gwirod poethion a diodydd meddwol yn arfer gyffredin; a thros yr holl amser ni phrofodd gymmaint a llwyed o'r gwlybwr blasus, er iddo gymmysgu galwyni o hono i'w feistr, ac o'r diwedd blinodd ei gyd-glercod chwerthin am ei ben.

Gwnaeth Amos hefyd benderfyniad i beidio cyffwrdd yn un ffordd â dobaco. Ni smocodd bibell na sigar erioed, ac ni ddarfu iddo ddodi dobaco yn ei enau ond un waith yn ei fywyd, a hynny pan ydoedd oddeutu pumtheg oed. Nid oedd dim a ffieiddiai yn fwy na gweled dynion yn smoco ac yn cnoi dobaco—arferion a ochelir gan bawb a ofalant am eu hiechyd, ac ydynt yn dewis cadw eu geneuau a'u danedd yn lân. Nid iawn yw galw yr arferion hyn yn rhai *anifeilaidd*, oblegid cymmerai creadur direswm ei ladd cyn y cymmerai attynt. Blant, gochelwch y fath arferion brwnt, ac os oes rhai o honoch wedi bod mor ffol a dechreu yr arferion, trowch hwynt heibio ar unwaith, a thros byth. Na feddyliwch eu bod yn arferion cymmeradwy o herwydd fod rhai gweinidogion yn ymwneyd â hwynt. Arferion ffiaidd ydynt. Nid oes un lle a ddylai gael ei gadw yn lanach ac yn fwy parchus na thy gweddi—ein ty cyfarfod Sabothol: ond edrychwch mor ffiaidd i'r golwg y gwna cnowyr dobaco loriau llawer o dai cyrddau ar y Saboth yn Nghymru. Maent yn debycach i loriau diotty ar ddydd ffair neu farchnad na thai cyfarfod crefyddol. Yn ystod y gwasanaeth gallech feddwl fod dyferion gwlaw yn cwympo o nen y ty, pan mewn gwirionedd nid yw y swn a glywch ond llysnafedd dobaco yn dropan ar y llawr. Dywedaf eto, blant, gochelwch yr arferion brwnt hyn. Byddwch yn siampl mewn glendid corphorol i'r sawl a ddylai fod yn siampl i chwi. Gwnewch fel Amos.

Flynyddau ar ol ymadael ag ystordy Mr. Brazier, ysgrifenodd Amos at fyfyriwr ieuange mewn coleg fel y canlyn:—"Yn y lle cyntaf cymmerwch hyn fel arwyddair (*motto*) ar ddechreu eich taith weinidogaethol, sef mai y gwahaniaeth o fyned *yn iawn*, neu ynte dipyn *yn gyfeiliornus*, fydd y gwahaniaeth o ffeindio eich hunan mewn lle parchus neu ynte mewn cors, ar ei diwedd. O'r holl nifer a

ddygwyd i fyny yn glercod yn ystordy Groton, am flynyddau o'm blaen ac ar fy ol i, yr wyf yn gwybod na ddarfu i un o honynt ddianc y gors, ond fy hunan yn unig; ac yr wyf yn olrhain fy niangfa fy hun i'r ffaith i mi osod ataliad ar fy mlys mewn pryd. Wedi i mi adael ysgolia a myned i'r ystordy, ni fum yno fis cyn i mi weled yr achos i gymmaint a fu yn y lle hwnnw i droi allan yn ddiwerth, a phenderfynais ochelyd y temtasiwn. Syndod yw meddwl y nifer o ffermwyr, crefftwyr, a phrentisiaid yr amser hwnnw, o herwydd yr arfer o yfed, a lanwasant feddau y meddwon, gan adael ar eu hol, lawer o honynt, deuluoedd mewn angen."

Yn awr, chwi blant yr Ysgol Sabothol, ystyriwch mai dyma y prif bwnc, sef y gwahaniaeth sydd rhwng myned *yn iawn* neu dipyn yn gyfeiliornus, yw y gwahaniaeth yn y diwedd rhwng onestrwydd ac anonestrwydd, llwyddiant a siomedigaeth, dedwyddwch neu ddinystr.

Yn y flwyddyn 1807, pan oedd Amos yn un-ar-hugain oed, aeth i Boston ag ugain dollar yn ei boced,—arian ag oedd wedi safio yn amser ei brentisiaeth. Mae *dollar* oddeutu pedwar swllt o'n harian ni; ychydig bach yn fwy. Cafodd gynnyg yn fuan ar fyned yn glerc i fasnachdy cyfrifol yn Boston. Aeth yno, ond nid arosodd ond ychydig fisoedd. Darfu i'w feistriaid ffaelu. Pryd hyn agorodd Amos ystorfa fechan ar Cornhill, ac a'i llanwodd â moddion a gafodd trwy rym yr ymddiried a osodai masnachwyr ynddo ag oeddynt wedi dyfod i'w adnabod. Onestrwydd, diwydrwydd, a threfn, oeddynt yr egwyddorion ar ba rai y cariai ei fusnes yn y blaen. Arferai gynildeb manwl yn ei holl faterion. Ni wariai geiniog ar bethau afraid, hyd nes y byddai yn gyntaf wedi ei henill. Dros ei saith mlynedd cyntaf yn Boston ni adawai i gymmaint ag un *bill* i sefyll dros y Saboth. Setlai ei holl gyfrifon yn wastad nos Sadwrn. Fel hyn yr oedd yn feistr ar ei fasnach. Ar ddiwedd y saith mlynedd *yr oedd yn werth haner can mil o ddollars.*

Pan ddaeth gyntaf i Boston, cymmerodd letty gyda gweddw ag oedd newydd agor gwestfa, neu *Boarding-house.* Erfyniodd Amos arni wneyd un rheol â'r *Boarders* yn yr eistedd-stafell gyhoeddus, sef fod i bawb gadw dystawrwydd am gymmaint ag awr ar ol swper, fel y byddai i'r cyfryw a ddewisent gael cyfleusdra i ddarllen a myfyrio. Dywed wrthym mai y canlyniad o'r rheol hon fu ym mhen ychydig flynyddau fod ganddynt yn y westfa honno y dynion ieuainge mwyaf tawel, sobr, ac awyddus am wybodaeth, o neb yn y ddinas. Y rhai na ddewisent gydsynio â'r rheol a aent allan ar ol tê, weithiau i'r play-house, ac weithiau i'r dafarn; ond darfu i'r rhai yma oll ym mhen amser ffaelu yn eu masnach a cholli eu cymmeriad da, tra ar yr un pryd y trodd allan y rhan fwyaf o'r cyfryw a gyd-ffurfient â'r rheol honno yn ddynion o ymarweddiad cymmeradwy, yn addurn i dynoliaeth, ac i lanw sefyllfaoedd cyfrifol a defnyddiol yn y byd. "Er mai ychydig oeddynt, dichon," medd efe, "y teimler eu dylanwad am oesoedd. Cafodd eu dylanwad effaith ddaionus arnaf fi, ac ar lawer eraill."

Ond i beidio a'ch cadw yn faith, yr hyn a adroddwyd oeddynt yr egwyddorion a fuont yn foddion i godi i fynu ddyn ieuanc, yr hwn a ddaeth yn un o fershandwyr cyfoethocaf Boston, cyfoethog mewn meddianau, mewn rhinwedd, ac mewn elusengarwch, colofn ac anrhydedd yr Eglwys Undodaidd, Amos Lawrence. Rhoddodd mewn elusen fwy

na chwech can mil o ddolars, ac y mae ei fywyd yn rhan o wir gyfoeth y byd. Nid yw y fath egwyddorion byth yn aflwyddianus. Chwi, blant yr Ysgol Sabothol, gwnewch eich hunain, nid yn unig yn adnabyddus â'r fath egwyddorion, ond gwnewch hwynt hefyd yn sylfaen eich ymarweddiad yn y byd.

ATTEB I'R GOFYNIADAU YN TUD. 206.

1. Asa; 2 Chron. xvi., 1—10.
2. Joas, ar farwolaeth Jehoiada, 2 Chron. xxiv., 2, 17—21.
3. Pedr, Matt. xxvi., 69—75.
4. Demas, 2 Tim. iv., 10.
5. Gwel 1 Tim. i., 19, 20.
6. Gwel Dat. ii., 4.
7. Y Galatiaid, Gal. iii., 1—3.
8. Gwel Diar. xvi., 18.
9. Gwel Gal. vi., 1; Iago v., 19, 20.
11. Jer. iii., 12, 22; Hos. vi., 1, 2; xiv. 4; Isai. lv., 7; Mal. iii., 7.

O.Y.—Gwel y darllenydd mai 10 ac nid 11 y dylasai yr olaf fod.

GOFYNIADAU.

1. Enwch dri o enwogion yr Hen Destament a gyflawnasant, bob un o honynt, yr un fath ddrwg ddwywaith.
2. Pwy yn yr Hen Destament a wrthododd, fel Crist, i gymmeryd i'w wneuthur yn frenin?
3. Pwy wyr duwiol a enwir gan ddau brophwyd fel siamplau neillduol o dduwioldeb?
4. Enwch ddau wr duwiol yn yr Hen Destament siamplau y rhai a goffheir gyda chlod mawr mewn pennod yn un o'r Epistolau.
5. Enwch ddau o enwogion yr Hen Destament a goffheir yn y Testament Newydd fel siamplau i ni i'w gochelyd.
6. Ym mha lefydd y mae ein Harglwydd yn dirgymhell ei hun fel siampl?
7. Ffeindiwch ddau o'r un enw—un yn yr Hen Destament yn siampl o ddewrder, a'r llall yn y Testament Newydd yn siampl o ofn.
8. Enwch un o enwogion yr Hen Destament siampl yr hwn a goffheir saith o weithiau yn y Beibl.
9. Enwch bedwar dyn o'r un enw, a dywedwch beth y mae i ni ddysgu yn neillduol oddi wrthynt.

Adroddwch allan o lyfr Luc xv.

Beth oedd prif ddyben ein Harglwydd yn traddodi dammeg y Mab afradlon?

Pwy gasgliad ellir dynu oddiwrth y ddammeg hon gyda golwg ar un o briodoleddau y Tad?

Ar bwy sylfaen mae Duw yn maddeu i bechaduriaid?

Enwch y gwahanol gyfundraethau Trindodaidd gyda golwg ar faddeuant.

Yn ol y cyfundraethau hynny, p'un a'i Crist a'i y Tad yw y Bod mwyaf cariadlawn?

Yr ydym ni, yr Undodiaid, yn gwrthod y cyfundraethau hynny. Pwy resymau sydd gennym yn eu herbyn? Treiwch ysgrifenu darlith byr ar bob un o honynt, a dangoswch hwynt i'r gweinidog pan fyddoch yn adrodd y bennod.

Enwch yr holl afonydd a sonir am danynt yn y Beibl, ac olrheiniwch hwynt ar y map.

Pwy dreſydd mawrion oedd ar lan yr afon Euphrates?

Os oes estyllen ddu *(black board)* gennych yn yr ysgoldy, ceisiwch gan ryw un a allo, i ddesgrifio i chwi y gyfundaeth haulaidd.

Enwch yr holl blanedau yn nhreſn eu cylchdroiadau, gan ddechreu gyda'r un nesaf at yr haul.

Dywedwch bellder pob un oddiwrth yr haul, a faint yw hyd blwyddyn yn y naill ar llall o honynt.

Sawl milldir o amgylchedd yw y ddaear? Beth yw achos dydd a nos? Beth yw achos gwahanol dymhorau y flwyddyn?

Beth sydd yn achosi diffyg ar yr haul? Beth ar y lleuad?

P'un nes yw ddaear at yr haul yn yr haf neu y gauaf? Paham?

Dymunem sylwi cyn diweddu mai peth da yw ymarfer y cof trwy ddysgu ar dafod bennodau ac adrodd darlithiau a phenillion, ar amserau neilldnol; ond peth llawer gwell—llawer mwy llesiol i'r ysgolheigion—fyddai atteb gofyniadau cyffelyb i'r rhai uchod. Byddai hyn yn ehangu eu deall ac yn eu dysgu i ymresymu yn gysson a rheolaidd. Meddwl ydym with gwrs yr ysgolheigion blaenaf yn yr ysgol, ac nid y plant lleiaf. Onid oes gormod o ddysgu ar dafod a rhy fach o arfer y deall yn ein hysgolion yn Nghymru? ac onid oes eisiau gwelliant ar y pen hwn? Mae yn bossibl y barna rhai fod gofyniadau o fath y rhai uchod yn rhy galed. Dichon y byddent felly i rai ar y cyntaf; ond trwy ymdrech ac ymarfer parhaus â hwynt darfyddai pob anhawsdra. Yn y fath ddull o ddysgu mae tuedd i wneuthur i ddynion ieuainge ymarfer y deall yn gystal â'r cof.

Pyrth Dinasoedd yn y Dwyrain.—*Yna ei dad a'i fam a ymaflant ynddo ac a'i dygant at henuriaid ei ddinas, ac i borth ei drigfan.* Deut. xxi. 19. Yr amser hwnnw, ac yn hir wedi hyny, porth y ddinas oedd lle y frawdlys, ac yno oedd cyrchfa gyffredin y trigolion. Yno yr elai llywodraethwyr a henuriaid y ddinas i wrandaw achwynion, i weinyddu cyfiawnder, i sierhau bargenion, megys pryniad neu werthiad tir; mewn gair, i drin pob achosion a berthynent i'r bobl. Oherwydd yr arferiad yma y dywed y Psalmydd—*Nis gwaradwyddir hwy, pan ymddiddanant â'r gelynion yn y porth.* cxxvii., 5. Clod y wraig dda yn Diarhebion, xxxi., 23, yw, *Hynod yw ei gwr yn y pyrth, pan eisteddo gyda henuriaid ei wlad*; hynny yw, gyda'r barnwyr. Yn adnod 31 o'r un bennod, dywedir am dani,—*A chanmoled ei gweithredoedd hi yn y pyrth.* Eto, *Yna Boaz a aeth i fynu i'r porth ac a eisteddodd yno,*

hynny yw, gyda'r henuriaid. Ruth iv., 5. *A phyrth uffern nis gorchfygant hi,* medd Crist am ei Eglwys. Matt. xvi., 18. Hynny yw, holl ddoethineb a chyfrwystra ei gelynion yn eistedd mewn cyngor ni all osod terfyn arni. Mor wir y trodd allan ei eiriau! Baeddodd teyrnas Crist holl allu a gelyniaeth ymherawdwyr Rhufain.

Teulu Duw.—*Weithian gan hynny nid ydych chwi mwyach yn ddieithriaid a dyfodiaid, ond yn gyd-ddinasyddion â'r Saint, ac yn deulu Duw.* Eph. ii. 19. Galwai yr Iuddewon y proselytiaid a droent at Dduw Israel, *dieithriaid* a *dyfodiaid.* Yr hwn a gymmerai arno addoli y gwir Dduw a chadw gorchymynion Noah a elwid *Gêr Toshab*—dieithr a oddefid i breswylio yn ei plith, ac i addoli yn nghyntedd y cenhedloedd. Yr hwn a enwaedid ac a ufyddhai i gyfraith Moses a elwid *Gêr Tzedek,* neu ddieithr cyfiawnder. Dieithriaid y galwai yr Iuddewon y ddau. Gelwid holl genhedloedd y ddaear yn ddieithriaid a dyfodiaid ger bron Duw Israel; ni ystyriai yr Iuddewon fod neb yn *agos* at Dduw ond hwy ea hunain. Ond yn awr yn ol tystiolaeth yr Apostol, nid oes dim gwahaniaeth ger bron Duw rhwng yr Iuddew a'r cenedl-ddyn, os bydd ant yn credu yn Nghrist. Nid yw un yn cael gwell derbyniad na'r llall. Y maent oll yn gyd-ddinasyddion a'r Saint yn y Jerusalem newydd; oll yn deulu Duw; oll yn dal yr un berthynas â'r Tad; oll yn blant ac etifeddion ei deyrnas. Iddo Ef y byddo pob clod a mawl trwy Iesu Grist ein Harglwydd!

Galaru oherwydd Pechod Mewnol.—*Ys truan o ddyn ydwyf fi! pwy a'm gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon?* Rhuf. vii., 24, "Yn y fath amgylchiad, heb un cynhorthwy nac annogaeth ond yr hyn a rydd cyfraith Moses, nis gallaf, medd yr Apostol, lai na llefain, *O ddyn truenus! pwy am gwared oddiwrth* gorph y farwolaeth hon? oddiwrth y baich wyf yn orfod gario gyda mi yn barhaus oddiamgylch; baich sydd yn rhwystrol ac atgas fel corph marw wedi ei rwymo wrthyf i'w lusgo gydaf i ba le bynnag yr elwyf." Fel yna yr alleiria Dr. Doddridge eiriau yr Apostol gan chwanegu y sylw canlynol;—"Y mae yn dra hysbys y crybwylla ysgrifenwyr yr hen oesoedd hyn fel creulonder a arferid gan rai gormesdeyrn ar geithion truenus a syrthient i'w dwylo; a darlun mwy nerthol a mynegol o gyflwr dyn dan y gyfraith, a deimlai ei druenusrwydd, nis gall ymgynyg i feddwl neb." Crybwyllir arferiad o'r fath gan y bardd Rhufeinig *Virgil* yn ei ddesgrifiad o *Mezentius,* brenin y *Tyrrheniaid.* "P'am," medd y prydydd, "y coffaf ei greulon laddiadau? P'am ddrygwaith echrys y gormesdeyrn? Ymddialed y Duwiau ar ei ben, ac ar ei dylwyth. Ië, a mwy eto, *corph meirw* a rwymai wrth rai byw, gan gydosod dwylo wrth ddwylo a geneuau wrth eneuau. O'r fath boenedigaeth! Yn dihoeni gan lwgrwaed a haint yn y gofleidiad druenus, hwynt a laddai yn y modd hyn ag angeu hirnychol."* Crybwylla

---

* Quid memorem infandas caedes? quid facta tyranni
Effera? Di capiti ipsius, generique reservent.
Mortua quin etiam jungebat corpora vivis,
Componens manibusque manus, atque oribus ora,
Tormenti genus et sanie taboque fluentes
Complexu in misero, longa sic morte necabat.
Aen. lib. viii. ver. 483—

Valerius Maximus hefyd yr arferiad creulon hwn yn Etruria. "Nid yw yr Etrusciaid ychwaith," medd efe, "yn llai creulon mewn dyfeisio cosp, y rhai, wedi rhwymo a llethu *cyrph dynion byw wrth rai warw*, y naill gyferbyn a'r llall, y fath fel y byddai pob rhan o'r aelodau yn cydweddu a'u gilydd, a ganiatant iddynt fraenu y'nghyd. Chwerwon benydwyr bywyd yn gystal ag angeu."*

EWYLLYS "BERTHOLDE,"

YR HWN FEL Y TYBIR OEDD FATH O FFRAETHWAS HYNOD YN LLYS ALBION, BRENIN CYNTAF Y LOMBARDIAID.

Yr wyf fi Bertholde, gorwyr Bertolazzo-di-Bertin, o bentref Bertagmana, yn gwybod ein bod oll i farw, ac nad y'm angen na chwysigen wedi ein llanw o wynt, yr hon y gall y ddamwain ddystadlaf ei gwasgu yn ddim, a phan y cyrhaeddom yr oed o 70 mlwydd, fel yr wyf fi heddyw, ei bod yn bryd y ni feddwl am guro tabwrdd enciliad, a dymuno nos dda, ac esmwyth gysgu i'n cymdeithion.

O dan yr ystyriaethau hyn, a mi yn cael yn fy mhen rai gronynau o synwyr da, yr wyf yn foddlon gosod fy amgylchiadau mewn trefn trwy wneuthur fy ewyllys, er boddlonrwydd i mi fy hun, yn gystal a'r eiddo fy nghyfeillion a'm perthynasau, i'r rhai yr wyf dan beth rhwymedigaethau: am ba reswm yr anfonais am "Sieur Cerfolio," iddo ef gael ysgrifenu fy ewyllys fel y canlyn;—

Yn gyntaf—Yr wyf yn gadael i Meistr Berthade, fy mrawd, clytiwr esgidiau parchusaf ein pentref, fy esgidiau, ac wyth ceiniog yn arian, am ei fod droion fagad wedi rhoddi i mi fenthyg ei fynawyd at eu cyweirio, y'nghyd â rhai cymwynasau eraill, llawn mor bwysig.

Eto—I fy ewythr Sambuco, garddwr, yr wyf yn gadael fy het wellt, am ei fod wedi rhoddi i mi ambell binshaid o genin, peth wniwns weithiau, ac ar achlysuron eraill beth ewinedd garlleg, at flaenllymu fi archwaeth at fwyd.

Eto—Yr wyf yn gadael i Meistr Allegratto, trulliad y brenhin, fy ngwregys lledr, am hariangod, am iddo lawer gwaith lanw fy nghistan o win, yn nghyd â rhai gweinyddiadau eraill, heb fod yn llai pwysig.

Eto—I Meistr Martin, cofydd y gwasanaeth-ddynion, fy nghyllell a'm fforch, am iddo yn achlysurol fy mhorthi â ffa ac wniwns, ymborth llawer mwy moethus yn fy ngolwg i na phasteiod a surberion, a seigiau breision eraill, y rhai a fuasent, cyn hir, yn fy anfon i'm bedd.

Eto—I fy modryb Pandora, yr olchwraig, fy ngwely gwellt, dwy gadair dyllog a sigedig, a dwy hirlathen o liain at wneuthur iddi dair arffedog, am olchi o honi fy nghrys a'm hosanau gwlân mawrion.

---

* At ne Etrusci quidem parum feroces in poena excogitanda: qui vivorum corpora cadaveribus adversa adversis alligata atque constricta, ita ut singulae membrorum partes singulis essent accommodatae, tabescere simul patiebantur: amari vitae pariter ac mortis tortores.—Lib. ix. cap. 2. § 10.

Eto—Yr wyf yn gadael i Fechet, gwychwas yn y llys, bump ar hugain o lachiau â ffrewyll, am iddo wneyd twll yn fy llestr lloft, yr hyn a achlysurodd i mi wlychu fy ngorweddfa, ac hefyd am iddo gylymu cliciedyddion wrth fy nghynffon, y'nghyd ag ystrawgiau a chwareuon ffol eraill na ddylasai; ac am nad yw ef nemawr byth heb fod â'i law wrth ryw gastiau drwg, dymunwn i'r erthygl hwn gael ei weinyddu yn fuan wedi fy marw.

Eto—Ar fy nyfodiad i'r llys, gadewais fy ngwraig Marcolfa, a'm mab bychan Bertholdini, ac ni roddais byth wybodaeth iddynt pa le yr wyf, rhag iddynt fy nghanlyn yma. Yr wyf yn gadael i Marcolfa fy ngwraig y dernyn bychan tir a feddianwn, hyd nes delo fy mab yn bump ar hugain oed. Wedi hynny bydd iddo ef, ar yr amodau canlynol—sef, os prioda, na byddo iddo byth ymuno â dynes o uwch gradd nag ef ei hunan; na byddo iddo ymgyfeillachu â'i uwchraddolion; bod iddo fwyta pan fyddo ganddo beth i'w fwyta, a gweithio pan allo; na byddo iddo gymeryd cynghor gan y sawl ni fedro lywodraethu ei hunan, na cheisio cyffyriau gan feddyg clâf; bod iddo wneud ei ddyledswydd tuag at bawb; bod yn ddiwyd gyda ei orchwylion; peidio ymyraeth â phethau na pherthynant iddo; a llawer llai â phethau na fyddo yn ei deall; na fyddo iddo drachwantu mewn dim, ond bod yn foddlon i'r hyn fyddo ganddo; y bydd iddo ystyried yn ddifrifol, fod mwy o ŵyn nag o ddefaid yn myned i faelfa y cigydd, a bod mwy o bobl ienainge nag o hen bobl yn meirw. Os bydd iddo feddwl yn ddifrifol am y pethau hyn, a'u gwneuthur, nis gall lai na bod yn ddyn dedwydd yn y byd, a marw yn dawel.

Eto—Gan nad oes genyf feddianau eraill, oblegid i mi ballu cymeryd dim gan y brenhin, er iddo yn fynych gynyg i mi, a'm taer gymhell i dderbyn ganddo symiau mawrion o arian, gemau, dodrefn, gwisgoedd drudion, tiroedd, cestyll, arglwyddiaethau, meirch gwychion, a mil o anrhegion costfawr eraill, y rhai a fuasent yn fy yspeilio o'r gorphwysdra a'r tawelwch, y rhai yn nesaf at iechyd, ydynt fendithion penaf fy mywyd. Gallasent, meddaf, beru i mi ymgymeryd â'r holl bethau ammherthynasol ag y gwelaf eraill mewn cyffelyb sefyllfaoedd yn ymwneyd â hwy, a thrwy hynny wneuthur fy hunan yn atgas gan y byd, oblegid, yn y cyffredin, y mae trahausder yn cydgerdded â'r rhai y mae tynghed wedi eu codi i swyddau uchel. Yn fyr, gan i mi yn wastad ymfoddloni ar fod yn dlawd, nid oes genyf ddim i'w adael i'r brenhin; ond gan fy mod yn credu iddo dderbyn peth lles oddiwrth fy nghynghorion, rhoddaf iddo yn awr ychydig ag a fyddant yn llesiol iddo ef ac i'w bobl.

Yr wyf yn ei gynghori, er lles ei ddeiliaid, ac er mantais iddo ei hunan, i ddal yfantol yn gywir bob amser rhwng y tlawd a'r cyfoethog; i chwilio a holi pob achos yn fanwl cyn rhoddi ei farn; i beidio byth a chyhoeddi dedfryd tra mewn tymher ddigllawn; i feithrin cariad ei ddeiliaid; i wobrwyo dynion doeth a da, a cheryddu y rhai drwg; i yru oddiwrtho wenieithwyr, celwyddwyr, ac athrodwyr, a'r holl rai hynny a flinant lys, trwy ddwyn tân yn eu tafodau; i beidio gorfeichio ei bobl; i amddiffyn y weddw a'r amddifad; ac i beru terfyniad buan ar gwynion cyfreithiol.

Os bydd iddo gadw yn ofalus yr ychydig reolau hyn, bydd fyw yn

ddedwydd, bydd ei deirnasiad yn anfarwol, a dangosir ef fel cynllun o ddoethineb a pherffeithrwydd i holl frenhinoedd y ddaear hyd diwedd amser.—Arwyddwyd BERTHOLDE.

Allan o'r London Magazine, June, 1753. J. D.

BETH,—DYNA'R PWNGC!

IE, dyna'r cwestiwn, beth? Y mae llyfryn bychan yn y Saesneg yn gofyn *Why*, ac yn atteb *Because*. Y mae llawer paham, pa fodd, a pha beth, nad all fy ysgrifell i wneuthur ond ychydig iawn tuag at ei ddeongli; tra y mae ambell i un arall y mae yn hynod hoff o redeg ar hyd 'ddo. Nid oes drwg o dreio, feddyliwn. Os yn ein hymdrafodaeth a hyn o *beth* y gallwn roddi ychydig o ddifyrwch ac adeiladaeth i ddarllenwyr lluosog YR YMOFYNYDD, bydd ein hamcan i raddau wedi ei atteb. *Beth* ysgrythyrol ydyw'r *beth* fydd a fynem ag ef yn bresennol. Fe addef darllenwyr dysgedledig YR YMOFYNDD fod llawer o *bethau* yn dra thywyll yn yr Ysgrythyrau. Nid yw yn ein bryd i ymgydio â'r tywyllaf o *bethau*, ond â phethau y gobeithiwn eu gwneuthur yn amlwg. Pe dywedem fod ystyr i enwau a darnau enwau yn yr Ysgrythyrau, ac ystyr bwysig ar rai prydiau, ni ddywedem ond y gwir. Y mae ystyr enwau llawer o lefydd yng Nghymru yn amlwg iawn i Gymro, megys Ty-gwyn, Pen-bryn, Maes-eglwys, Pentre-harn; tra mae ereill fel Moel-fre, Pen-bre, Bron-fre, Hafod, yn ymddangos yn dywyll. Ond y mae goleuni newydd yn rhoddi dyddordeb newydd. Mae *bre* yn arwyddo *bryn*, neu fynydd bychan; hafod, yw trigfa haf, *summer residence*. Gwyddom beth olyga'r Sais wrth y gair *pen*, ond nid yw yn gwbl feddianol ar y gair nes gwybod ei fod yn tarddu o'r Lladin *pen-na*, a bod hwnw yn arwyddo pluſyn, defnydd cyffredin iawn at wneuthur *pen* hyd yn ddiweddar iawn. Gwyddom, pan glywom blant yr ysgol yn son am *ystil*, eu bod yn cyfeirio at offeryn ysgrifenu; ond nid yw hanes y gair genym nes gwybod ei fod yn gyfystyr â *stilus* yr hen amser;—offeryn o haearn neu o ryw ddefnydd arall, â blaen un pen iddo i *grafu* llythyrenau, a'r pen arall yn llyfn i'w dlëu drachefn pan fyddai angen. Mae llawer o enwau yn bresennol nad ynt yn cyfleu un ystyr yn y byd i ni. Mae'r ystyr wedi myned i golli. Eraill nid ydynt yn hysbys ond i ychydig. Mae'r hen enwau Cymreig ar ddynion bron i gyd wedi myned heibio, a dieithriaid wedi cymmeryd eu lle. Bydd yn syn gan y darllenydd nad Cymreig yw un o bob deg, braidd, o'i enwau anwylaf—ie, dieithriaid yw John, ac Ifan, a Daniel, a Gomer, a Gwilym. Mae Rhys yn aros, mae Llwyd yn aros. Gwyddom rywbeth am Llwyd —gymmaint ag a wyddom am Brown, ond beth am Rhys? Gwyddom ystyr *B* a *P* yn nechreu llawer o enwau; Beynon, ab Eynon; Prys, ap Rhys; Pritchard, ap Richard; Probert, ap Robert. Ap neu ab yn arwyddo mab, fel *Mac* y Scotiaid, *Mac*-donald, mab Donald; *Fitz* y Normaniad, *Fitz*-william, mab William. Mae O' y Gwyddelod yn gyfystyr ag *wyr*, Rory O'More, Rory *wyr* More. Yn yr Hebraeg, mae *ab* yn arwyddo *tad*, Abraham, tad cenhedloedd; y geiriau am mab ydynt *Ben* a *Bar*, *Ben*-oni,

mab fy ngalar; *Ben*-jamin, mab y llaw dde; *Bar*-jonas, mab Jonas; *Bar*-timeus, mab Timeus. Ond dyna, *beth* ydyw'r pwngc?

Gwyddom am *dŷ* mai lle anedd yw—lle clyd. Mae cyssylltiad agos rhwng *tô* a *tŷ*. Peth tebyg yw *bwth*—enw y gair ym mhlith y Gwyddelod a'r Scotiaid, a chenhedloedd ereill lawer. Dywedir fod y gair Saesneg *booth*—(mae'r enw yn dwyn adgof galarus am Lincoln)—*booth* o *boweth* megys *broth* o *broweth*. Os felly, bwthyn, math o dŷ yw wedi ei wneuthur trwy blethu canghenau o goed. Dywedir mae tŷ o *wyail gwynion* oedd y Ty *Gwyn* ar Daf. Tra thebyg mai dyna hefyd ar y cyntaf oedd y rhan amlaf o'r *White Houses* y darllenwn ni mewn llyfrau am danynt. Ystyr *Beth* yr Ysgrythyrau yw "tŷ." Nid ym yn ddigon o Hebrëwr i ddywedyd pa fath dŷ oedd yn wreiddiol. Ymddengys ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y Beibl am bob math a maint o dŷ, ac yn fynych iawn am lawer o dai gyd â'u gilydd; cyssylltir ef â llawer o leoedd a phentrefi. Beth-afen, tŷ eilunod. Beth-car, ty porfa. Beth-gader, tŷ'r mur. Beth-ezel, tŷ cymmydog. Beth-Gilgal, Beth-Dagon, &c.

Yn y Testament Newydd, yr ydym gyd a rhwyddineb ac hyfrydwch yn galw i gof Bethlehem, Bethania, Bethesda, &c. Ystyr Bethlehem yw "ty bara." Yr oedd dau Bethlehem. Yr oedd un yn Zabulon, y llall yn Judea, tua chwe' milldir i'r dehau o Jerusalem. Gelwir yr olaf weithiau yn Bethlehem-Judea, a phrydiau ereill yn Bethlehem-Ephratah. Safai y dref hon mewn gwlad ffrwythlawn iawn, fel mae nid yn ammhriodol y galwyd hi yn Ty'r Bara. I Bethlehem ffrwythlawn yr arweiniodd Jacob ei braidd i borfa, ac yn ei maesydd hyfryd y bendithiodd Boaz y medelwyr tra'r oedd Ruth yn lloffa, ac oddi yno y cymmerwyd Ruth i fod yn wraig i Boaz ei hunan. Gelwir hi ym mhellach yn Ddinas Dafydd, oblegid yma y ganwyd y Bugail Frenin—per ganiedydd Israel—yma y bu'n bugeilio praidd ei dad, yma yr eneiniwyd ef gan y Prophwyd Samuel yn frenin Israel, ac yma yn ddiammheu yr ysgrifenodd rai o'i Salmau tlysion, yn neillduol y rhai hynny y gwneir cyfeiriadau cyffrous ynddynt at fywyd bugeiliol, at Dduw y Bugail, a ninnau yn bobl ei borfa a defaid ei law. Y pethau hyn oll a roddant ddyddordeb neillduol i ni yn y lle hwn; ond teimlir dyddordeb mwy fyth ynddo gan y rhai hyny a edrychant arno fel y man y ganwyd yr Iesu ynddo, ac y clywyd ynddo y lleisiau o'r nef yn canu—"Gogoniant i Dduw yn y Goruchaf, ar y ddaear tangnefedd, ac i ddynion ewyllys da." Er nad oes genym ddim hanes ei fod wedi ymweled a'r lle yma yn ystod ei weinidogaeth; etto, teimlir dyddordeb cyffredinol yn y lle. O oes i oes y mae llawer o adeiladau coffadwriaethol wedi eu codi yno.

Yn nes i Jerusalem y mae mynydd yr Olewydd, oddi ar yr hwn y cyhoeddodd yr Iesu ddinystr y ddinas falch anghrediniol hono, oddi ar yr hwn yr esgynodd i'r nef. Y tu dwyreiniol y mae Bethania a Bethphage, y blaenaf i'r gogledd oddiwrth yr olaf. Ystyr Bethania onid yw "ty'r *dates*," o bossibl am fod llawer o'r coed *date* yn tyfu arno, llawer o'r palmwydd. *Dates* y gelwir ffrwythau'r balmwydden. Mae'r pren a'r ffrwyth yn ddefnyddiol iawn. Lle bychan oedd Bethania; ond y mae yn lle pwysig yn hanes bywyd yr Iachawdwr. Arosai yma ambell dro, oblegid yma oedd cartref ei gyfeillion Lazarus a'i ddwy chwaer, Mair a Martha. Yma y bu farw Lazarus, ac yma yr ufuddhaodd i'r llais hynod

a ddywedodd, "Lazarus, tyred allan." Yma y darparodd Martha wledd i'r Iesu, tra'r eisteddai Mair wrth ei draed ac y gwrandawai arno. Menyw dda, fwyn, oedd Martha, ond ei bod dipyn yn rhy drafferthus yng ngylch pethau'r byd hwn. Mair a ddewisodd y rhan dda—yr *un peth* angenrheidiol. Yn Bethania hefyd yr eneiniodd Mair ben ei Harglwydd ag enaint gwerthfawr; a ger llaw, tra'n ymddiddan â'i ddisgyblion, y derbyniwyd ef mewn cwmwl o'u golwg—esgynodd i'r nef.

Ystyr Bethphage yw "Tŷ ffigys." Lle bychan ydoedd hwn hefyd, tua dwy filldir o Jerusalem. Ychydig sydd o son am dano yn yr Efengylau. I Bethpage y danfonodd yr Iesu ddau o'i ddisgyblion am yr ebol asyn, ar yr hwn yr oedd i farchogaeth i Jerusalem. O bossibl fod rhai o'i ganlynwyr yn byw yno. Mae dipyn yn rhyfedd, tra mae Bethania etto yn aros, mae Bethphage wedi llwyr ddiflanu.

Deuwn yn nesaf at Bethsaida, ystyr yr hwn yw "Tŷ pysgod," am ei fod ger llaw Mor Galilea, lle'r oedd cyflawnder o bysgod. Yr oedd ychydig filldiroedd i'r de o Capernaum, ac yr oedd yn gartrefle, a digon tebyg yn le genedigol i dri o'r Apostolion, Petr, Andreas, a Philip. Gwnaeth yr Iesu lawer o'i wyrthiau yma. Yr oedd Bethsaida arall heb law yr un dan sylw, dipyn i'r gogledd, a gyfenwyd Julias, oddiwrth Julia, tywysoges Rhufeinig. Yr enw yn yr Efengylau, fodd bynag, yw *Chorazin*. Mae'n gofus gan y darllenydd eiriau'r Iesu: "Gwae di, Chorazin; gwae di, Bethsaida." Ger llaw un o'r ddau le yma y porthwyd y pum mil â phum torth haidd a dau bysgodyn. Bydded i ni gasglu'r briwfwyd gweddill, fel na choller dim.

Ystyr Bethabara (Gwel Barnwyr vii., 24) yw "Ty y rhyd." Mae'n gorwedd ger llaw un o rydiau'r Iorddonen. Yma yr oedd Ioan yn bedyddio, a digon tebyg mai yma y bedyddiwyd yr Iesu. Yma yr ymneillduodd yr Iesu wedi iddo gynnhyrfu dig yr Iuddewon trwy ei ymadrodd ar y gyssegr-wyl.

Mae Bethesda yn arwyddo "ty trugaredd." Ni chyfeirir ond unwaith at y lle hwn (Ioan v. 2). Lle ydoedd wedi ei ddarparu i'r gwahanol rai a arosent gynnhyrfiad y dwfr. Gan fod y dwfr o natur iachusol, priodol iawn y gelwid yr arosfa yn Bethesda. Yma yr iachawyd un oedd wedi bod yn agos i 40 mlynedd yn glaf. Llefarwyd y gair, a'r dyn a iachawyd. Ni allasai neb gyflawni'r gwyrthiau, oddieithr fod Duw gydag ef. Bydded yr Iesu i ni yn "allu Duw ac yn ddoethineb Duw."

Gwelir ynte oddiwrth y gwahanol *Bethau* yma eu bod o ddyddordeb mawr i ni. Mae pa beth bynnag sy'n dal perthynas a'n Iachawdwr bendigedig o werth i ni roddi ein myfyrdod iddo. BETH.

DAEARYDDIAETH PALESTINA.

PEN. IV.

1. *Gwastadedd yr Iorddonen.* Mae hwn yn cynnwys y tir sydd ar lan y llynoedd yn gystal ac ar lan yr afon Iorddonen. Mae hyd y dyffryn o lyn Gennesareth i'r Mor Marw oddeutu 75 milldir, ac y mae'r Arabiaid

yn ei alw yn El Ghor, neu y dyffryn dwfn. Mae y rhan ogleddol o'r El Ghor oddeutu 5 milldir o led; ac y mae yn dyfod yn lletach tua'r Mor Marw, lle y mae oddeutu 10 neu 12 milldir o led, ac yn ffurfio o du'r dwyrain i'r Iorddonen wastadedd Moab, ac o du'r gorllewin iddi, wastadedd Jerico. Mae'r Ghor yn cynnwys dau ddyffryn, un mewnol a'r llall yn allanol, trwy y blaenaf y rhed yr Iorddonen, ac y mae yn ddyffryn ffrwythlon, yn rhoddi tyfiant da i lysiau, ac felly yn cael ei wisgo gan fantell wyrddlas, tra y mae'r olaf yn ddiffygiol iawn yn hyn, ac ar y cyffredin yn hollol ddiffrwyth. Rhan eithaf deheuol y dyffryn hwn, ddewisodd Lot, "gan mai dyfradwy ydoedd oll, cyn i'r Arglwydd ddifetha Sodom a Gomorrah." (Gen. xiii. 10.)

Yr oedd Ioan Fedyddiwr yn hoff iawn o gyrchu iddo. Yma y daeth ef gan bregethu, "Edifarhewch: canys nesaodd teyrnas nefoedd." (Matt. iii. 2.)

2. *Dyffryn Jericho.* Ei hyd sydd oddeutu 18 milldir wrth 7 neu 8 o led. Yr oedd yn enwog am ei ffrwythlondeb. Rhedai llawer o nentydd drwyddo, ac felly yr oedd yn cael ei ddyfrhau yn dda. Cynnwysai lawer o blanfeydd olewydd, palmwydd, a chynyrchai rai o'r rhosynau pertaf yn holl Judea. Gyda daear mor dda a hawdd i'w thrin, etto y mae yn cael ei gadael braidd yn anial-dir. Nid oes eisiau ond ychydig lafur yr hwsmon arni cyn y byddai i'r rhandir hwn ddyfod y mwyaf ffrwythlon ar wyneb y ddaear. Dynion ddog yw pobl Jericho, ac yn talu ond ychydig sylw i hwsmonaeth. Mae Josephus yn son yn aml am ffrwythlondeb y gwastadedd hyn. Geilw hi y parth mwyaf cynyrchol yn Judea; canmolai ei gerddi hardd a'i phlanfeydd palmwydd. Yr oedd yn enwog am ei mêl a'i balsam. Ychydig o'i chynyrchon hynod sydd yn awr i'w cael. Nid oes ond rhyw un balmwydden unig yn sefyll yn y gwastadedd fu unwaith mor llawn o honynt, nes rhoddi yr enw, "dinas y palmwydd" i Jericho. Nid yn mhell o ddinas Jericho y mae'r ffynon, lle taflodd Eliseus halen iddi, a'r "dyfroedd a iachawyd." (2 Bren. ii. 21). Rhydd y ffynon hon gyflawnder o ddwfr iachusol, ac a ffrwythlona y tir. A lle nid yw'n dyfrhau nid yw'r gwastadedd yn cynyrchu dim. Mae Josephus yn dyweyd "Y mae ffynon, o du'r gorllewin i Jericho, ac sydd yn tarddu $2\frac{1}{4}$ milldir uwchlaw y ddinas ar ffordd Jerusalem, yn rhoddi cyflawnder helaeth o ddwfr da, yn rhedeg dros y gwastadedd ac yn ei ffrwythloni ef." (Wars of the Jews, b. 5, c. 4).*

3. *Dyffryn Jehoshaphat.* Mae y dyffryn hwn yn gorwedd rhwng Jerusalem a mynydd yr Olewydd. Un cul iawn ydyw, ac oddeutu milldir o hyd. Gelwir ef weithiau dyffryn Kidron, gan fod afon o'r enw yn rhedeg drwyddo. Adnabyddir ef hefyd wrth yr enw *Safeh*, a dyffryn y brenhin. (Gen. xiv. 17; 2 Sam. xviii. 18). Golwg anial iawn sydd arno, ac y mae yn fwy tebyg i gwm na dyffryn. Yr oedd y dyffryn hwn yn yr hen amser, yn enwog fel lle claddedigaeth pobl y ddinas sanctaidd, yr oedd ei ochrau yn frith gan gofadeiliau am y meirw; ac yn mhlith y cyfryw y mae tri yn deilwng o sylw; sef, eiddo Zechariah, Absalom, a Jehoshaphat. Oddiwrth yr olaf y mae'r dyffryn yn cael yr enw. Darllenir

* Onid oes yma gamsynied? Yn B. 4, c. 8, § 3, y ceir desgrifiad o'r ffynon ger Jericho, ond nid yw y dyfyniad uchod i'w weled yno.—Gol.

yn Joel (iii. 2) "Casglaf yr holl genhedloedd a dygaf hwynt i wared i ddyffryn Jehoshaphat," &c.

4. *Dyffryn Hinnom.* Gorwedd y dyffryn hwn gerllaw Jerusalem. Un dwfn cul ydyw, ac oddeutu haner milldir o hyd, wrth 50 llath o led. Yr oedd uchelfannau ac aberthau yn cael eu gwneuthur i Moloch yn nyffryn prydferth Hinnom; ac yma "yr arogldarthodd Ahaz a'r Offeiriaid, ac a losgodd ei blant yn y tan yn ol ffieidd-dra'r cenhedloedd, a fwriasai'r Arglwydd allan o flaen meibion Israel." (2 Chron. xxviii. 3).

Yr oedd hefyd yn cael ei alw yn Tophet, oddiwrth y gair Hebraeg, Toph, diwm neu dabwrdd. Yr oedd tabyrddau ac offerynau cerdd ereill yn cael eu chwareu yn y dyffryn hwn pan y buasid yn aberthu i Moloch, fel y buasid yn boddi ysgrechfeydd y rhai oeddynt yn cael eu haberthu.

> "First Moloch, horrid king, besmear'd with blood
> Of human sacrifice, and parents' tears;
> Though for the noise of drums and timbrels loud
> Their children's cries unheard, that passed through fire
> To his grim idol."—*Milton.*

Rhoddodd yr Iuddewon gwedi hyny yr enw Gehenna iddo. Mae'r proffwyd Jeremiah yn siarad fel hyn, "Am hyny wele'r dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, pryd na elwir y lle hwn mwyach Tophet, na Dyffryn mab Hinnom, ond Dyffryn y Lladdfa. (Jer. xix. 6). Mae'r prydedd Milton yn dyweyd—

> "And made his grove
> The pleasant valley of Hinnom, Tophet thence,
> And black Gahenna call'd, the type of hell."

5. *Dyffryn Rephaim.* Mae hwn gerllaw i Hinnom, ac yn ymestyn i'r de-orllewin rhwng Jerusalem a Bethlehem. Mae'n debyg iddo gael yr enw oddiwrth faintioli anarferol ei berchenogion cyntefig. Ei hyd sydd oddeutu chwech milldir ac o gryn led. Yr oedd gynt yn enwog am gnydau toraethog; ceir cyflawnder o winwydd, olewydd, a pherllanau ynddo y dydd heddyw. Yma gorchfygodd Dafydd lu y Philistiaid ddwywaith (2 Sam v., 18, &c.); ac y mae Isaiah yn cydmaru eu dymchweliad i "gasglydd tywysenau yn nglyn Rephaim." (Isa. xvii., 5).

6. *Elah.* Mae y dyffryn hwn yn gorwedd o du'r de-orllewin i Jerusalem. Meddylir mai yr un ydyw a Wady es-Sumt. Bryniau o uwchder canolig sydd o bob tu iddo, ac yn cael eu gwisgo gan goed olewydd. Ceir math ragorol o lafur a gwin arno.

Cymmerodd amgylchiad hynod, â gofnodir yn yr Ysgrythyr, le yn y dyffryn hwn. "Saul a gwyr Israel a ymgasglasant, ac a wersyllasant yn nyffryn Elah, ac a drefnasant y fyddin i ryfel yn erbyn y Philistiaid. A'r Philistiaid oedd yn sefyll ar fynydd o'r naill du, ac Israel yn sefyll ar fynydd o'r tu arall: a dyffryn oedd rhyngddynt. A daeth gwr rhyngddynt hwy allan o wersylloedd y Philistiaid, a'i enw Goliath, o Gath, a'i uwchder oedd chwe chyfudd a rhychwant. A helm o bres ar ei ben, a llurig ammog a wisgai: a phwys y llurig oedd bum mil o siclau pres. A bottasau pres oedd am ei draed ef, a tharian pres rhwng ei ysgwyddau, &c." "A phan gyfododd y Philistiad, a dyfod a nesau i gyfarfod Dafydd; yna

brysiodd Dafydd, ac a redodd tua'r fyddin i gyfarfod â'r Philistiad. A Dafydd a estynodd ei law i'r god, ac a gymerth oddi yno garreg, ac a daflodd, ac a darawodd y Philistiad yn ei dalcen: a'r garreg a soddodd yn ei dalcen ef; ac efe a syrthiodd i lawr ar ei wyneb." (1 Sam. xvii.) O'r nant yn y dyffryn hwn y cododd y bugail-ryfelwr y bump carreg lyfn. Yn y ganaf mae yma lawer o ddwfr, ond yn yr haf y mae yn hollol sych.

7. *Dyffryn Mamre.* Mae hwn yn agos i Hebron, yn un ffrwythlawn yn cael ei gwrteithio yn dda, ac arno gyflawnder o rawnwin ac olewydd. Meddylir iddo gael yr enw oddiwrtho Mamre brawd Aner ac Eschol, y rhai oeddent gyfeillion a chynghreirwyr iddo yn ei ryfelgyrch yn erbyn y pedwar brenin. (Gen. xiv.) Treuliodd Abraham, Isaac, a Jacob, lawer o'u hoes yn y gymydogaeth hon. Ac yn ogof Machpelah, yr hon sydd o flaen Mamre, y claddwyd Abraham a Sarah ei wraig. (Gen. xxv. 10.) Yma claddwyd hefyd Isaac, Rebeccah, a Leah; a gorchymynodd Jacob, pan ar ei wely angeu, i'w feibion ei gladdu ef gyda ei dadau yn yr ogof, ac sydd yn maes Ephron yr Hethiad. (Gen. xlix 29.) "A'i feibion a wnaethant iddo megis y gorchymynasai ef iddynt. Canys ei feibion a'i dygasant ef i wlad Canaan, ac a'i claddasant ef yn ogof Maes Machpelah." (Gen. l. 12, 13.)

Dywedir fod y Deml Dyrcaidd yn Hebron wedi cael ei hadeiladu ar ogof Machpelah; ac mewn gwahanol fanau ynddi mae'r Moslemiaid wedi codi cofadeiliau i'r patriarchiaid. Maent yn eu gwylied yn ofalus iawn, ac ni chaiff yr un Cristion groesi trothwy y deml *(mosqe)*.

8. *Eschol.* Mae y dyffryn hwn hefyd yn nghymydogaeth Hebron. Cafodd yr enw oddiwrth y "swp grawnwin" a ddygodd meibion Israel ar drosol rhwng dau, fel siampl o ffrwythau y wlad addawedig. (Num. xiii. 24.) Mae gwinllanau ac olif-lanau yn awr i'w cael yn y dyffryn hwn, ac ar ael y bryniau. Mae grawn-win Escol y mwyaf a'r goraf yn ngwlad Canaan.

9. *Dyffryn yr Halen.* Rhan o'r Ghor ydyw hwn. Y mae'n gorwedd o du'r de i'r Môr Marw, ac yn gyfagos i'r mynydd Halen, â elwir *Usdum*. Yn y tymor sych, y mae hwn yn wastadedd tywodog, ac ar amserau ereill, yn forfa halenog. Mae y dyffryn yn enwog yn yr Ysgrythyr, am ddwy fuddugoliaeth, â enillodd yr Hebreaid ar yr Edomiaid. Un gan Dafydd, a'r llall gan Amaziah, brenin Judah, "Yr hwn â darawodd o'r Edomiaid, yn nyffryn yr halen, ddeng mil, ac a ynnillodd y graig mewn rhyfel, ac a alwodd ei henw hi Joctheel." 2 Bren. xiv. 7.) Cymerodd hefyd 10,000 o garcharorion, "ac a'i dygodd i ben y graig, fel y drylliwyd hwynt oll." (2 Chron. xxv. 12.)

J. E.

EIN HYSGOLION SUL.

Y mae adroddiad y Sunday-School Association am y flwyddyn yn terfynu Sulgwyn, 1868, newydd ymddangos. O bossibl y bydd yr hyn a ganlyn yr dderbyniol gan ddarllenwyr Yr Ymofynydd. Yn yr

Athraw am 1866, tud. 307, fe welir ystadegau y flwyddyn hono. Safant eleni fel y canlyn:—

Aberdâr	131	80	51	9	80	9	4	10	61	—
Allt-y-Placa	54	28	26	52	44	6	1	7	36	—
Capel-y-Fadfa	53	25	28	50	50	6	2	6	38	—
Capel-y-Groes	58	38	20	—	—	4	—	—	45	llai.
Ciliau	32	20	12	24	34	4	—	4	20	yr un.
Cribin (wedi ei rhoddi i fyny dros amser).										
Cwmbach	48	36	18	—	38	6	1	7	6	yr un.
Llwynrhydowen.....	50	25	25	33	—	8	—	6	—	yn fwy.
Merthyr-Tydvil.....	85	50	35	30	60	5	3	—	30	yr un.
Pantydefaid.....	100	45	55	75	80	7	2	9	45	yn fwy.
Rhydygwin	39	26	13	30	35	3	1	2	23	yr un.
Swansea	64	39	25	14	30	6	5	4	—	dim gwell

Mae daflen yn gosod allan sefyllfa bresennol rhai o'n ysgolion yng Nghymru Y mae eglurhad y colofnau fel y canlyn: (1) cyfanswm rhif yr ysgolion; (2) rhif y gwrvwod; (3) y menywod; (4) y cyfartaledd neu'r *average attendance* dros y flwyddyn, y bore; (5) y prydnawn; (6) yr athrawon gwrywaidd; (7) menywaidd; (8) *average attendance* yr athrawon; (9) rhif yr ysgolheigion uwch 15 oed; (10) sefyllfa bresennol yr ysgol mewn cymmhariaeth i'r hyn ydoedd y llynedd. Yn awr, beth awgrymir i'n meddyliau wrth ddarllen yr uchod? Sylwer yn fanwl ac ymofyner a oes dim rhyw beth yn rhagor ellir ei wneyd tuag at wellhau a lluosogi ein hysgolion Sul yng Nghymru. Rhy barod wyf fi, fe allai, i wneyd sylwadau, ond na thramgwydder chwi, gyfeillion, os digwydd i mi wneyd rhai sylwadau na fyddont yn hollol ddymunol genych. Dwysbiger chwi yn hytrach at ymdrech mwy o blaid yr achos da sydd mor agos genym at ein calonau. Y peth cyntaf ynte, p'am na fyddai genym gyfrifon oddiwrth ragor o'n hysgolion? Mae genym ysgolion ereill, a rhai da. Nid oes achos eu henwi, y mae yn ddigon hysbys. Fe ddywedir yng nghorff yr adroddiad fod dwy neu dair o ysgolion bychain nad ydynt byth yn anfon un *report* nac yn rhoddi rheswm p'am, a bod un neu ddwy ereill yn peidio "*on principle*," ar egwyddor. Nis gwn a oes rhai o ysgolion Cymru ym mhlith yr uchod ai peidio, ond pob parch dyladwy i "egwyddor" bob amser, serch i ni fethu deall yr egwyddor hono. Gallwn ninnau farnu y cyfryw ysgolion yn dda, yn ddrwg, neu yn ganolig, fel y byddo'n tueddiad. Yn y flwyddyn 1866 yr oedd genym gyfrifon naw ysgol, deuddeg eleni, ond fod y deuddeg unwaith etto yn un-ar-ddeg mewn gwir. Deuwch gyfeillion, os nad ydych "*on principle*" yn peidio, rhoddwch i ni gyfrif eich hysgolion y flwyddyn nesaf. Gadewch i ni gydymdrechu mewn gwneuthur daioni. Gyfeillion y Cribin, ble'r ydych? A ydyw pob bywyd yn eich plith wedi darfod? A ydych wedi dysgu y cwbl, fel nad oes dim i'w ddysgu mwy? Ystyriwch y modd y mae hanes eich eglwys yn cael ei ysgrifenu i'w drosglwyddo i'r oesoedd a ddel. Yn 1865 dywedasoch: yr ysgol yn fach iawn—gobeithiwn ei gwellhau erbyn y flwyddyn nesaf. Yn 1866—dim un ysgol yn bresennol. Ai fe, gyfeillion, ai dyma ydyw eich meddyliddrych am wella'nt? Yn 1868—*suspended for a time*. Och, fi, wedi ei rhoddi i fyny dros amser, a'r amser hwnw yn ammhenodol. Gwelaf fod beirdd yr

Ymofynydd, bellach, wedi eu symbylu at waith: oni ellir yn rhywfodd eich symbylu chwithau? Wele arwyddair i chwi **Nawr**, a hai ati etto. mae Aberdâr hyd yma yn cadw y lle blaenaf ar y llechres o ran rhif; ond wele Pantydefaid yn dilyn yn dŷn ar ol. Os ä Pantydefaid yn y blaen y modd y mae wedi gwneyd yn ddiweddar, nid hir y bydd cyn cymmeryd y lle blaenaf. Fe welir fod Aberdâr yn un o'r ysgolion sydd heb lanw y goloſn olaf. Nid yw hyn arwydd o welliant. Fel arfer, y mae'r ystadegau yma yn dwyn rhai pethau hynod i'r golwg. Gwell eu nodi, er mwyn cael diwygiad. Cawn fod y Ciliau yn rhifo 32, a'r *average attendance* yn 34. Yn y cyffredin yr ydym yn di-gwyl i'r olaf i fod yn llai na'r blaenaf, ond wele un eithriad. O'r braidd y disgwyliem i *average attendance* yr athrawon fod yr un faint a rhif yr athrawon, h.y., fod yr athrawon *oll* wedi attendo trwy'r flwyddyn heb golli un waith. Mae hyny yn bossibl ond yn annhebygol iawn. Beth ddywed Allt-y-Placa, Ciliau, Cwmbach, Pantydefaid, a Rhydygwin am hynny? Mewn amryw o'n hysgolion gwelwn nad oes neb o'r rhyw deg yn rhoddi eu gwasanaeth fel athrawon. P'am hynny? Ai felly y dylai fod? Yn y goloſn olaf, Capel y Groes yn unig sydd wedi dywedyd eu bod yn "llai." Mae'n haeddu canmoliaeth am hynny. Mae wedi dangos ei bod yn deall ei chyflwr, ac y mae mwy o obaith oddi wrthi na phe bai, fel rhai ereill, yn dywedyd dim. O'r ddau, mae'n well genyf "llai" na "dim gwell" yn dra thebyg i "dim gwaeth" ac "yr un," ac yn arddangos yr hunanfoddlonrwydd hynny sydd yn rhwystr ar bob gwelliant. Bwrier hwynt allan o'r llyfrau a myner "yn fwy" yn eu lle.

Tybiwn mai'r hyn o ddyry yr *insight* goreu i sefyllfa pob ysgol yw yr *average attendance*—y rhifedi yn y cant o'r *attendance* dros y flwyddyn. Dosbarthwn hwy fel y canlyn yn agos. Allt-y-Placa, 96; Capel y Fadfa, 94; Rhydygwin, 89; Pantydefaid, 80; Cwmbach, 79; Merthyr Tydvil, 70; Llwynrhydowen, 66; Ciliau, 65; Aberdar, 61; Swansea, 46. Ofnwn fod rhai o'r uchod yn rhifo yn rhy uchel i fod yn gywir. Bwriai yr *Unitarian Herald* amryw allan o'r gyfres yn 1866, am eu bod yn annheilwng o ymddiried. Cyfrifid Styal â'u 88 yn y cant yn uwchaf y pryd hwnnw, ac Aberdâr yn bummed o'r gwaelod. Nid ŷm yn ystyried fod y cyfartaledd yn Aberdâr yn isel eleni.

Fel y canlyn y mae ystadegau ein holl ysgolion yn y Deyrnas Gyfunol y chwe blynedd diweddaf:—

	Yr Ysgolion.	Ysgolheigion.	Y Rhif o bob Cant yn bresennol.	
			Bore.	Prydn.
1868	181	22,142	61	73
1867	181	21,917	58	71
1866	171	21,030	60	71
1865	170	21,123	60	72
1864	178	22,132	60	72
1863	151	19,791	67	78

Mae'r 181 o ysgolion â'u 22,142 o ysgolheigion yn rhoddi *average* o 123 i bob ysgol Mae ym Manchester chwech o ysgolion yn cynnwys 1384 o ysgolheigion, yr un fwyaf yn 543. Mae yn Birmingham bump

ysgol yn rhifo 1906, yr un fwyaf yn 541, yr un leiaf yn 319. Y ddwy ysgol leiaf ydynt Flagg yn cynnwys 11, a Dover 8. I Bristol y perthynai yr anrhydedd o tod yn 1866 yr olaf o ran *attendance*, â'i *average* o 23 yn y cant. Y mae wedi esgyn i fynu yn aruthrol eleni. Rhif yr ysgol yw 279, *average* 200, *average* yn y cant tua 71.

Dyna ddigon am y tro yma. Mawr lwyddiant fyddo'n dilyn ein hysgolion Sul.

Awst 5, 1868. R. J. J.

Barddoniaeth.

Cyhoeddwn bob prydyddiaeth, canolig a da, fel ei danfonir i ni. Os oes arobrid, i'r awdwyr mae'r clod; os gwallau, hwy sydd yn attebol am danynt.

Mr. Gol.—Barnu wyf mai nid anfuddiol i feirdd ieuainge yr oes bresenol fyddai yr englynion hyfforddiant canlynol, a gyfansoddwyd gan Iolo Morganwg, yn y flwyddyn 1799, ar gais mebyn ieuange o Wynedd. Pwy wyddai yn well na'r hen fardd am gyfansoddi barddoniaeth? Cymmwys y canodd y bardd Walter Mechain am dano:—

"Tra bo tôn yn afon Nedd,
A Dawon yr un duedd,
Tâf a Chynon afonydd,
Yn gyru'u dwfr i Gaerdydd,
Bydd ym mhob glyn, bryn, a bro,
Miloedd yn son am Iolo.

Yr eiddoch, Eiddil Cynnon.

Y Mebyn llawn grym hybwyll—hên Awen,
A'i neued goleubwyll,
Cenaist i ofyn canwyll,
I ochel tyb a choel twyll.

Rheol ddigonol hardd ganu—Englyn,
Rhag anglod i'r prydu;
Iawn addysg i weinyddu
Eirian gamp yr Awen gu.

Ar ffysg gair addysg a roddaf,—yn rwydd
Yn yr hyn a geisiaf,
A'i draethu'n rad, i'r eithaf,
Yn ol fy neall a wnaf.

Bydd gelfydd, gwybydd, yn gall—y mesur
Ymosod i'w ddeall,
Nid yngan rhyw nad anghall
Yn wr dwl, fal banner dall.

Cynghanedd hywedd sy'n hoywi—Englyn,
Mae'n anglod bod hebddi;
I'w ddidwyll fodd o'i dodi
Ar gân y Bard, hardd yw hi.

Bydded iawn gerdded, yn gain,—i'r llafar
Er llifo'n felusgain;
A geiriau'r Iaith yn gywrain,
Yn we serch, yn iawn eu sain.

Fal awel dawel min dydd,—cyflafar,
Ag adar o goedydd;
Ar led y cain wyrlodydd*
Rho'r gan ffraw'i rodiaw'n rydd.

I'r daran buan ei byllt,—a'i llifoedd
Boed llafar echryswyllt,
Gyrddlais ffrawdfawr, a gawr gwyllt,
Swn rhaiadr, a sain rhywyllt.

Yn fore clyw gan firain—yr Eos,
A'i rywiawg ddolystain;
Iawn iriaith hon i arwain,
Awen dy serch i ferch fain.

Boed perffaith dy Iaith, a'i dethol—uniawn,
Llawn enaid a nerthol;
Yn taraw'n dra naturiol,
Hoeywber ei phwyll, heb air ffol.

Iaith hygar, foddgar, ufydd gall—ei ryw,
A fo rhwydd ei deall;
Nod Awen, ynni diwall,
Yw bawsder cain ystyr call.

Naws taerwyllt anystyriaeth,—daw allan,
A'i dwyllau Llenyddiaeth;
O bydew anwybodaeth;
Nid o iawn ffrwd Awen ffraeth.

Gwna'th Englyn, y dyn a doniau—synwyr,
Yn seinio drwy'r banau.
Addawaf itti'n ddiau,
Gan bob tafod, glod, yn glau.

Tyb coeth meddwl doeth a dawn—dienddysg,
Dod ynddi'n fywydlawn;
A gwiwfarn Awen gyfiawn,
Drwy'th holl waith, a'r Iaith yn iawn.

Rheol, un ddethol, hen ddoethion,—a gawn
Ar ganiad Englynion;
O cais, ag ymbwyll cyson
Arail hynt y Reol hon.

Dod bwyll, yn ddidwyll, i dd'wedyd—ei wir,
Yn dy waith goleufryd;
A llafar heb dwyll, hefyd,
Yn y Gerdd, yn iawn i gyd.

Dod lên ag awen gywair—yn y gân,
Gan ei gwau'n gerdd gadair;
Ias trynwyf heb estronair,
Dim ar wall, yn gall bob gair.

Trwy'th gân boed anian a doniau—addysg
Rho iddynt y gorau
Rho nawdd o bob Rhinweddau,
Ag i'w dilyn glyn yn glau.

---

* Gwyrlod yn y Wenhwyseg—Gweirglawdd yn y Wyndodeg. Gwyrlod neu y Wyrlod, gair cyffredin ym Morganwg am waun, neu borfeldir: oddiwrth llawd—llodig, *teeming*.—Iolo Morganwg.—Gwel Awenyddion Morganwg.

Nwyf gnian, ar dân, yw'r deunydd—gorau,
Ag iriaith bur gelfydd;
A'th glod yn teithio gwledydd,
Ar draed cawr, yn fawr a fydd.

Serchog a bywiog dyb Awen—irddoeth,
Sy'n harddwch disgywen;
A lliw myfyrdod llawen,
Yw nod didwyll pwyll mewn pen.

Medru dyfalu'n fywlwys,—a ddylit,
Hardd eiliaw Iaith gymwys;
Ymarbod a thyb mawrbwys,
Ymddal doeth a meddwl dwys.

Cais arwedd Rhinwedd, er rhanu—addysg,
A'i wiwddoeth weinyddu;
Yn foddus tangnefeddu,
Yw iawn gamp yr Awen gu.

Bid iachus, bywyd uchel—y bergaingc,
Yn burgoeth ei hawel;
A dewrgais Pwyll diargel,
A dreiddia'n fwyn drwyddi'n fêl.

Eneidia'r holl ganiadaeth—yn beraidd,
A bwriad uchelfaith;
Berw eiriau beroriaeth,
Ynnïau ffriw awen ffraeth,

Gwna'th Englyn fel hyn, cai fawl hardd, i'th gân,
A'th geinwaith awendardd;
O degwch ymbwyll digardd,
Unwn, fyth, i'th enwi'n Fardd.

Bardd penraith dawn maith dyn mad—o'th elwir,
A theilwng ddynodiad,
A'i awch hael am ddychweliad
Awen glir i dir ein gwlad.

Dos bellach yn iach, yn awr,—i'th ymgais,
A'th amgyrch awenfawr;
Na flina, byddi'n Flaenawr,
Inni'n Fardd, a'th enw'n fawr.

Iolo Morganwg.

NEWYDD PRUDD.

Rhyw ddiwrnod daeth im nodyn,
Do yn gynar, y prydnawn,
Ynddo gwelais newydd pruddaidd
Fod fy nhad yn waelaidd iawn;
Finau dranoeth yn y borau
A ddychwelais tu a thref,
A'm dymuniad yn daer ydoedd
I gael siarad gair ag ef.

Ac yn unol a'm dymuniad
Cefais ganddo air neu ddau,
Rhai dueddent i'm cynghori,
Nes gwneyd im i lawenhau;
Fy'n llawenydd drodd yn dristwch,
Yn fy nghalon teimlais aeth,
Cyn im weled y nos dranoeth
Yn yr angau huno wnaeth.

Cyn pen tridian ar ol hyny,
Cadd ei roi mewn dudew fedd,
Yno'n dawel y gorwedda,
Hyd nes cana utgorn hedd,
Pryd caiff pawb o'r rhai fuont feirw
Adgyfodi byth i fyw,
Os y rhodiont hwy yn unol
A gorch'mynion doeth ein Duw.

T. GWARNANT.

DAMWAIN ANGEUOL.

Dydd Iau, y 9fed o Orphenaf, wedi i John Davies ddyfod allan o Bwll Glo y Middle Duffryn, Cwmbach, wedi dibenu ei ddiwrnod gwaith aeth gan lusgo i fynu wrth *dram incline* serth iawn, ond cyn cyraedd ei phen draw yn ddiogel collodd ei afael yn y *tram*, a'r canlyniad fu iddo gwympo i lawr rhyw lawer o latheni a chael ei anafu yn dost wrth hyny. Awd ag ef adref yn fyw, ond nid hir y bu cyn cau ei lygaid yn yr angeu. Cynaliwyd trengholiad arno dydd Gwener, y 10fed, pryd y dychwelwyd y reithfarn o "Farwolaeth Ddamweiniol." Mab oedd i John a Rachel Davies, Capcoch, ger Aberdâr, y rhai, ynghystal a pherthynasau agos ereill, sydd yn galaru eu colled. Yr oedd y brawd ieuaug uchod yn hoff allan o ddarllen, mae'n debyg, a mynychai Ysgol Sabbothol Methodistiaid y lle yn rheolaidd bob dydd Sul. Pe buasai Ysgol Sabbothol gan yr Undodiaid yno y tebygolrwydd yw yr aethai efe iddi am y rheswm fod ei rieni yn proffessu Undodiaeth, ac ni a obeithiwn fod eu proffes yn gweini cyssur, nid bychan, iddynt yngwyneb cael eu hymddifadu, megis yn anamserol, o'u hanwyl fab John, pan o gylch 12 mlwydd oed.

Ar y Sabboth canlynol daeth tyrfa anarferol o luosog i'w gludo o blith y byw at y meirwon yn *Cemetery* Mountain Ash, yn mha le y gorwedd hyd yr amser pryd y cawn godi a byw.

Gweinyddwyd yn y ty ac yn y Cemetery gan Weinidog yr Undodiaid yn y Cwmbach.

ONEN FAWR, GER LLANDILO.

Dydd Sul, Awst y 9fed, talwyd ymweliad â'r Capel hwn, gan Ysgol y Gellyonen.

Heb ymdroi nac yma nac acw, rhoddwn grynodeb mor fyred ac y medrwn, o'r adrodd a'r canu. Dechreuwyd y cyfarfod trwy ddarllen a gweddïo, gan y Parch. J. Evans, Gellyonen, ac yna esgynwyd yr areithfa gan Proff. Evans, Caerfyrddin, mewn trefn i ddwyn y cyfarfod yn

y blaen yn rheolaidd, fel yr oedd y *programme* wedi ei drefu, yr hwn oedd yn agos fel y canlyn,—

1. Adrodd Galatiaid 6fed bennod gan John Lloyd.
2. Adrodd "Ffordd y gwirionedd a'r bywyd," gan William Williams, Craig Clynmeirch.
3. Tôn.
4. Adrodd, "Anogaeth i'r Ysgol Sabothol," gan Lewis Thomas.
5. Adrodd, Salm 100fed, gan Rachel Jones.
6. Adrodd, "Y Gwanwyn," gan Lewis Hopkin, Cathylyd.
7. Canu Tôn, y "Sabbath."
9. Adrodd, Matthew 7fed bennod, gan Griffith Lloyd.
10. Adrodd, y 131 Salm, gan Margaret Bowen.
11. Adrodd, "Dadl ymddiddan rhwng dau gymydog, yng nghylch treulio Sabathau," gan Thomas Griffiths, a David Davies.
12. Canu Tôn, "Rhowch y tànau."
13. Adrodd, y 19 Salm, gan David Lloyd.
14. Adrodd, "Addysg i'r Ieuangc," gan Thomas Thomas, Hafod.
15. Canu Tôn, "Cysur."
16. Adrodd, "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi," gan David Hopkin.
17. Adrodd, "Dedwyddwch teuluaidd," gan Lewis Thomas.
18. Adrodd. "Y Mab Afradlon," gan John Evans.
19. Canu Tôn, "Missionary."
20. Adrodd, "Moses ar ben Pisgah," gan Lewis Hopkin.
21. Adrodd, "Ymddiddan rhwng William a Dafydd," gan William Davies a David Davies.
22. Canu Tôn, "Greenland."
23. Adrodd, "Ymorol am y wlad well," gan Thomas Thomas.
24. Canu, Tôn "Yr hên Ddarby," "O fryniau Caersalem ceir gweled."

Terfynwyd trwy weddi, gan y Parch D. L. Evans.

Cafwyd cyfarfod hynod a happus a diddorol, yr adroddiadau gan mwyaf, yn bur dda, a'r canu yn chwaethus rhagorol.

Dangoswyd ymdrech a llafur nid bychan, ar ran yr ysgol, ac yn ddiau mae clod yn ddyledus i'r Parch. Mr. Evans, am ei ymdrech diflin gydag achos mor deilwng.

Byddai yn bleser o'r mwyaf, gan Eglwys fechan yr Onen Fawr i gael ymweliadau mynych oddiwrth ei chwaer o'r Gellyonen, pe byddai amgylchiadau yn caniatau.

Diolch i chwi yn galonog un ac oll, yn y modd mwyaf didwyll a gwresog. A diolch hefyd i Rees Davies, Ysw., Maesyffynon, am roddi cae cyfleus i'r anfeiliaid bori.

Llandybie. RHYDDERCH.

PRIODWYD.

Gorphenaf 26, yn Hen Dy Cwrdd, Aberdâr, Mr. John Evans â Miss Jane Jenkins.

Awst 9, yn Hen Dy Cwrdd, Aberdâr, Mr. David Jones â Miss Anne Pendry, y ddau o Aberdâr.

BU FARW.

Rywbryd ym mis Mai, yn—ni waeth b'le, plentyn bach i—ni waeth pwy—oblegid ni adwaenodd ei rieni erioed. Treuliodd ei ychydig amser i ben heb ddylanwad siriol gwenau ei rieni, heb ofal tad, heb gusan mam. Dywed Ceiriog, "Na syrthiodd neb erioed i'r bedd, na welid rhywun prudd ei wedd, yn gollwng deigryn arno; ac o'r braidd y gallesid disgwyl peth o'r fath i ddigwydd, gan mor naturiol yw galar a chydymdeimlad ar lan afon Angeu." Fodd bynag, cludwyd yr un bychan hwn ymaith gan ddieithriaid, a dodwyd ef yn ei fedd bach heb yr un deigryn. Diau gwell oedd iddo gael marw na byw. Nid ei fai oedd ef nad oedd iddo gariad naturiol tad a mam. Bellach y mae wedi myned at yr Hwn nid oes ganddo dderbyn wyneb, ac ni fydd iddo mwy gael dioddef o herwydd pechod neb arall. (2 Thes. v. 22.)

Awst 8fed, anwyl briod Griffith Evans (Dilledydd), Pantmelyn, plwyf Llanbedr Ceredigion, a merch i Dafydd a Sarah Evans, Nantyffin, yn y plwyf uchod, yn 25ain oed, ar ol cystudd byr o wythnos. Dydd Llun canlynol, cladd wyd hi ym mynwent Capel y Groes. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch. Thomas Thomas, gweinidog y lle. Ei destyn oedd Luc viii. 52. Yr oedd yr ymadawedig yn feddianol ar dymherau aeddfwyn a charedig. Nid oedd yn cael ei lywodraethu gan hunanoldeb a balchder; ond yr oedd bob amser, ac yn mhob lle, yn weddaidd ac yn ddirodres. Yr oedd yn aelod barchus yn Nghapelygroes, ac yn dwyn mawr zel dros yr Ysgol Sabothol, ac yn rhoddi ei phresenoldeb mor fynych ac y caniatai ei hamgylchiadau. Yr oedd yn feddianol ar gof neillduol i ddysgu ac adrodd unrhyw ran o'r Ysgrythyrau gyda'r rhwyddineb mwyaf. Bydded i'w galarus briod, ynghyd â'i hanwyl dad a mam, yn alluog i edrych yn ol ar yr amser byr y cawsant ei benthyg gyda hyfrydwch mawr, gan ddysgwyl am y cyfnod gogoneddus hwnnw ag y cafodd Iolo ddrychfeddwl am dano pan y dywedodd.

Ein ceraint cawn ar adfer oll,
Cawn, a byth mwy nid ânt ar goll,
A gan lwyr angof pob awr drist,
Yn ni-drangc deyrnas Duw a'i Grist. Dd. Daniel.

Dydd Iau, yr 16eg o'r mis diweddaf (Mehefin), o'r *English Cholera*, y Parch Evan Morgan, Periglor Llandyssul, yn 62 oed. Claddwyd ef ym meddrod ei wraig yn Llanwnen, ger Llanbedr, y dydd Mawrth canlynol.

Dydd Sul, y 19eg o'r mis diweddaf (Gorphenaf), yn 59 oed, bu farw Mrs. Anne Harries, Penlone Hendryd, ger Llanwnen, o'r *English Cholera*. Claddwyd hi ym mynwent yn Undodiaid yn Capelygroes dydd Mercher canlynol. Ar yr achlysur pregethodd y Parch T. Thomas, gweinidog y lle.

Dydd Mawrth, y 23ain o fis Mehefin, bu farw Sarah Thomas, Pwllffine, Llandyssul, yn 82 oed. Claddwyd hi dydd Iau canlynol ym mynwent y plwyf. Y Parch Jno. Davies, Alltyplacca, a gyflawnodd y gwasanaeth angladdol yn y ty gartref.

Y 24ain o Gorphenaf diweddaf, bu farw y Parch T. Lloyd, M.A., Gilfachwen, yn 66 oed. Claddwyd ef ym mynwent Llandyssul yr Iau canlynol.

Ar y 26ain o Orphenaf, wedi byr gystudd, Margaret Howells, Llaethdy, Cwmaman, Aberdare, yn 20 oed. Ychydig wythnosau cyn ei marwolaeth aeth am dymor byr o amser i Benderyn i newid awyr gan feddwl y buasai hynny yn effeithio er gwell ar ei hiechyd; ond wedi myned yno nid hir y bu cyn cael ei hargyhoeddi mai gwell oedd iddi ddychwelyd gartref mor fuan ag oedd bossibl, a hynny am y teimlai fod y babell yn dadfeilio yn gyflym dan ddant amser, ac nad oedd un gobaith am iachâd. Gyd a golwg ar hyny trodd ei disgwyliad pryderus yn ffaith ar y diwrnod a nodwyd. Y Iau canlynol canlynwyd hi i'w hir gartref, yn y *Cemetery*, Aberdâr, gan berthynasau a chyfeillion. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach.

Gorphenaf 31.—Yn nhy ei ewythr, y *Welsh Harp*, Trecynon, Aberdar, John Lewis, yn 20 mlwydd oed. Claddwyd ef Awst 3, yn y gladdfa gyffredinol.

Ar y 5ed o Awst, yn dra disymmwth, yn 63 mlwydd oed, Mrs. Margaret Davies, Mountain Ash, gweddw y diweddar Mr. Morgan Davies, gynt o Goed-Bryn-Têg, swydd Forganwg. Y Sadwrn canlynol hebryngwyd hi i dy ei hir gartref yn mynwent Hen Dy Cwrdd Coed-y-Cymmer. Pregethodd y Parch. Llewellyn, o'r Mountain Ash, oddiwrth Salm xc. 3. Gadawodd ddeg o blant i alaru ar ei hol. Na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith.

Awst y 7fed, Isaac, anwyl blentyn Rees a Margaret Richards, Abernant-y-Groes Road, Cwmbach, yn 18 mis oed. Yn ngwyneb cael eu hymddifadu o'u un bychan, ein dymuniad ni yw ar i'n brawd a'n chwaer allu ymdawelu dan lywodraeth yr hwn sydd yn gwneuthur pob peth mewn doethineb diwyrni. Eiddo yr Arglwydd ydym, o ganlyniad ganddo Ef yn unig y mae hawl i'n cymeryd ni ymaith yn ei amser appwyntiedig ei hun. Y Llun canlynol hebryngwyd yr ymadawedig i gladdfa Eglwys Heol-y-Felyn, Aberdâr.

"A'r fyr o dro daw angeu loes,
I dorri lawr yr hwya'i oes;
A'r ieuange hardd a'r baban gwan,
Y beddrod isel yw eu rhan."

Awst yr 8ed, yn 20 mlwydd oed, Miss Mary Thomas, merch y diweddar Thomas Thomas, Ysw., Llanfair, Llandyssul, Ceredigion. Y dydd Iau canlynol hebryngwyd ei gweddilion, gan dyrfa luosog, i fynwent Pantydefaid. Cyn cychwyn o'r ty, darllenodd a gweddiodd y Parch. Edward Jones, Caerdydd, a chyflawnwyd y gwasanaeth claddu yn Pantydefaid gan y gweinidog. Dioddefodd gystudd maith yn amyneddgar iawn, gan gyfrif nad yw dioddefiadau yr amser presenol yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir i ni. Tad yr ymddifaid a nertho ei brodyr a'i chwiorydd i alaru'n gymedrol ar ol un oedd gu ac anwyl ganddynt.

Awst 8, Mrs. Dinah Morris, Craigtrebanos, yn 77 oedd. Bu yr ymadawedig yn aelod ffyddlon a gwresog yn eglwys Gellionen am lawer iawn o flynyddau. Hi fu yn ystod ei bywyd yn fenyw lafurus a diwyd, ac yr oedd gair da iddi gan bawb drwy'r gymydogaeth. Ac fel prawf o hyn, ymgynullodd tyrfa luosog o'i chyfeillion ynghyd i dalu iddi eu cymwynas olaf, y Llun canlynol. Pregethwyd ar yr achlysur yn y Gellionen gan weinidog y lle, oddiar Phillipiaid i. 23, sef, y testun oedd hi wedi ddewis ychydig cyn ei mharwolaeth; ac yn nghladdfa'r capel uchod y gorwedd hyd nes

"Caiff ddeffro dan beroriaeth corn
Archangel mawr y nef." I.

Ar y ddegfed o Awst, bu farw Evan Parry (saer), No. 31, Incline Row, Cwmaman, Aberdâr, yn 60 oed. Claddwyd ef yn y *cemetery*, gweinidog yr Hen Dy Cwrdd yn gweinyddu ar yr achlysur.

"Pan ddel o'i ofidiau a'i boenau i'r bedd,
Yng nghol Duw mae'r Cristion yn huno mewn hedd;
Yn foreu cwyd dranoeth o'i feddrod i fyw
Ar dir iachawdwriaeth yn iach gyda Duw."

Awst 12, yn Ffynon-Inglis, Llanybyther, yn 82 oed, Esau Evans, tad y Parch. D. L. Evans, un o Athrawon Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, a golygydd presenol yr YMOFYNYDD. Claddwyd ef yn Alltyplaca y Sul canlynol.

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "JOURNAL," CAERFYRDDIN.